

# Cynllun Busnes 2023-24

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i **Lywodraeth Cymru**
Transport for Wales is owned by the **Welsh Government**


# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Ein cynllun busnes | 3 |
| 2. | Datblygu ein dull o newid ymddygiad | 7 |
| 3. | Yr economi sylfaenol | 10 |
| 4. | Ein cyllid ar gyfer 2023-24 | 11 |
| 5. | Mesur ein perfformiad | 13 |
| 6. | Cyflawni ein cylch gwaith | 14 |
| 7. | Cynllun | 15 |
| 8. | Partner | 28 |
| 9. | Cwsmeriaid a diwylliant | 33 |
| 10. | Adeiladu a chynnal | 46 |
| 11. | Cyflawni ar gyfer cwsmeriaid | 53 |
| 12. | Gwerth am arian | 59 |
| 13. | Gwasanaethau galluogi | 64 |

# Ein cynllun busnes

Mae ein Cynllun Busnes 2023-24 yn nodi'r prif weithgareddau y byddwn yn eu cyflawni rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024. Diben popeth a wnawn yw annog newid ymddygiad er mwyn galluogi newid dulliau teithio i ddefnyddio trafnidiaeth fwy cynaliadwy, gan leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat a chynyddu nifer y bobl sy'n dewis defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu ddulliau teithio llesol. Ein nod yw creu, datblygu a gwella'n barhaus system drafnidiaeth integredig i Gymru sydd â'r cwsmer yn ganolog iddi, gydag un rhwydwaith, un tocyn ac un amserlen yn sylfaen iddi. Byddwn yn gwneud hyn drwy greu cyfleusterau cyfnewid rhwng gwahanol rwydweithiau trafnidiaeth, gan alluogi'r newid i lwybrau ac amserlenni cydgysylltiedig, ac integreiddio gwybodaeth a thocynnau i wella mynediad at ein gwasanaethau a chynllunio siwrneiau.

Mae'r graffigyn isod yn nodi sut mae'r cynllun hwn yn perthyn i'n fframwaith cynllunio busnes cyffredinol.


Llywodraeth Cymru
Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021 a'r cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer trafnidiaeth
20
Blwyddyn
Rhaglen lywodraethu pum mlynedd
Llythyr cylch gwaith pum mlynedd
Llesiant cenedlaethau'r dyfodol
Trafnidiaeth Cymru
Blwyddyn 0
Blwyddyn 1
Blwyddyn 2
Blwyddyn 3
Blwyddyn 4
Blwyddyn 5
Strategaeth
Strategaeth gorfforaethol pum mlynedd
Cynllun busnes blynyddol
Cynllun busnes blynyddol
Cynllun busnes blynyddol
Cynllun busnes blynyddol
Cynllun busnes blynyddol
Adroddiad blynyddol
Adroddiad blynyddol
Adroddiad blynyddol
Adroddiad blynyddol
Adroddiad blynyddol


4

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Cytunwyd ar ein gweithgareddau ar gyfer y 12 mis nesaf gyda Llywodraeth Cymru ac maent yn cyd-fynd â'r canlynol:

- Ein llythyr cylch gwaith pum mlynedd gan Lywodraeth Cymru sy'n nodi'r blaenoriaethau y mae'n rhaid i ni eu cyflawni dros dymor Llywodraeth Cymru.
- Y Rhaglen Lywodraethu sy'n nodi amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer senedd Cymru 2021-26.
- Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 sy'n nodi gweledigaeth ar gyfer sut y gall ein rhwydwaith trafnidiaeth ein helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru i greu cymdeithas fwy ffyniannus, gwyrdd a chyfartal dros yr 20 mlynedd nesaf drwy annog newid ymddygiad i fathau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth gyda tharged newid dulliau teithio i 45% o siwrneiau gael eu gwneud gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu ddulliau teithio llesol erbyn 2040.
- Y saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd ein gweithgareddau hefyd yn cyd-fynd â'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth. Mae hyn yn cynnwys defnyddio Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) i ddatblygu'r prif gynlluniau, rhaglenni ac ymyriadau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu hariannu er mwyn rhoi Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 ar waith.

Dylid darllen y cynllun hwn ochr yn ochr â'n Strategaeth Gorfforaethol, 2021-26. Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn nodi ein blaenoriaethau a sut y byddwn yn gwireddu ein gweledigaeth. Yn benodol, mae'n disgrifio:

- gweledigaeth, pwrpas a gwerthoedd TrC.
- ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a datgarboneiddio.
- yr egwyddorion arweiniol sy'n sail i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth integredig i Gymru.
- ein dull o gysylltu cymunedau gwledig.
- Ymrwymiad TrC i sicrhau datblygiad sefydliadol strategol, trawsnewidiol a dibynadwy i gynorthwyo ein twf a'n cylch gwaith amrywiol.
- ein model gweithredu.

Yn ystod 2022-23, ar y cyd â Bwrdd TrC, y Tîm Arwain Gweithredol a Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd adolygiad o'r model gweithredu presennol. Arweiniodd at ddatblygu model gweithredu newydd sy'n seiliedig ar systemau a dulliau cefnogi ac sy'n cyd-fynd â'r weledigaeth a'r amcanion y cytunwyd arnynt.

Bydd y dull hwn yn rhoi llwyfan hyblyg i TrC ehangu ein cynnig aml-ddull ar yr un pryd â chynyddu effeithlonrwydd ym mhob rhan o'r sefydliad; gan leihau'r risg o ddyblygu. Cafodd cam cyntaf ein model gweithredu ei gyflawni yn 2022-23 a byddwn yn cyflawni rhagor o gamau yn ystod 2023-24. Bydd y gweithgareddau yn y cynllun busnes hwn hefyd yn cyd-fynd â'r model gweithredu hwnnw.

Mae'r cynllun busnes hwn wedi'i nodi yn erbyn y pum system graidd o waith::

- Cynllun
- Partner
- Cwsmeriaid a diwylliant
- Adeiladu a chynnal
- Cyflawni ar gyfer cwsmeriaid.

Caiff y rhain eu cefnogi ymhellach gan y ddau ddull cefnogi canlynol:

- Gwerth am arian
- Galluogi gwasanaethau.

Caiff y systemau hyn a'r dulliau cynorthwyo eu cefnogi gan ein sefydliad ehangach ac is-systemau ac is-ddulliau cefnogi ddylai ein galluogi i gyflawni mewn ffordd fwy effeithiol ac effeithlon.

Dros y 12 mis nesaf, byddwn yn gwreiddio ffordd gyson o feddwl ym mhob rhan o TrC er mwyn gwella'r ffordd rydym yn cyflawni ein blaenoriaethau allweddol. Bydd gweithio gyda ein pobl a chefnogi eu datblygiad yn ein helpu i weithredu mewn ffordd gyson, gydgysylltiedig ac effeithlon. Bydd hyn yn hwylusydd pwysig i ni ar gyfer cyflawni'r amcanion a nodir yn ein Strategaeth Gorfforaethol pum mlynedd, gan ein symud tuag at gyflawni'r weledigaeth a ddiffinnir yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021. Byddwn yn sicrhau y caiff y pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 eu hystyried ym mhob rhan o'r sefydliad ac yn cysoni ein gweithgareddau'n fel eu bod yn cyfrannu at y saith nod llesiant.



6

# Datblygu ein dull o newid ymddygiad

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Rydym yn cefnogi Llywodraeth Cymru i annog newid i deithio cynaliadwy er mwyn cyrraedd y targedau a nodir yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021. Mae'r newid hwn mewn ymddygiad trafnidiaeth yn dal i fod wrth wraidd ein gweithgareddau yn 2023-24.**

Bydd mentrau newid ymddygiad, yn ogystal â gallu ehangach ym mhob rhan o TrC, yn rhoi'r canlynol i unigolion, cymunedau a sefydliadau:

- mwy o gyfle i wneud dewisiadau teithio cynaliadwy.
- y cymhelliant i symud oddi wrth ddefnyddio ceir preifat.
- y gallu i weithredu newidiadau yn eu hymddygiad eu hunain drwy hyfforddi, cefnogi a chael gwared ar rwystrau er mwyn ysgogi'r defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy.

Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy wneud y canlynol:

- cyflwyno mentrau a datblygu gwasanaethau sy'n seiliedig ar egwyddorion sydd wedi'u hymchwilio'n dda ac arferion da hysbys er mwyn cynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy.
- adolygu gweithgarwch a buddsoddiad presennol gan ddefnyddio dulliau newid ymddygiad i sicrhau'r effaith fwyaf fel rhan o'r gwaith o ddatblygu strategaeth tymor hwy.
- datblygu a gwerthuso cynlluniau seilwaith newydd fel ymyriadau 'cyfle' penodol er mwyn newid ymddygiad.
- datblygu gallu TrC i gefnogi'r newid i ddulliau teithio cynaliadwy, gan adeiladu ar hyfforddiant presennol, darparu gwybodaeth ac integreiddio newid ymddygiad yn ddiwylliannol ym mhob rhan o'r sefydliad.

## Mentrau

Gan adeiladu ar y mentrau a'r cynllun newid ymddygiad a ddatblygwyd yn ystod 2022/23, ochr yn ochr â'r gweithgareddau sydd eisoes ar y gweill, byddwn yn datblygu strategaeth tymor hwy unigryw TrC ar gyfer newid ymddygiad er mwyn cefnogi amcanion Llywodraeth Cymru yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 ym mhob rhan o TrC. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddefnyddio'r gallu rydym wedi'i ddatblygu a'i alluogi drwy ein model sefydliadol sy'n ymgorffori newid ymddygiad drwy'r busnes cyfan.

## Datblygu gallu|

Ochr yn ochr â'r mentrau y gwnaethom ddechrau eu cyflawni yn 2022/23 (gan weithio gyda phartneriaid fel Iechyd Cyhoeddus Cymru a thîm gwyddor ymddygiad Llywodraeth y DU) byddwn yn parhau i ddatblygu ein gallu i ddefnyddio gwyddor ymddygiad yn ein gwaith. Bydd hyn yn ein helpu i barhau i wreiddio egwyddorion newid ymddygiad ym mhob rhan o TrC. Bydd hyn yn ein galluogi i gynllunio rhagor o fentrau a gweithgareddau sy'n newid ymddygiad trafnidiaeth mewn ffordd gadarnhaol, yn ogystal â gwella effeithiolrwydd cynlluniau a buddsoddiadau sydd eisoes ar waith.

## Cynaliadwyedd

Mae TrC yn bodoli er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a chyflawni ei nodau sero net, gan wella bywydau pobl Cymru ar yr un pryd. Mae Cynllun Cadernid ac Addasu i Newid Hinsawdd TrC yn amlinellu sut rydym yn ymateb i risg hinsawdd drwy greu rhwydwaith trafnidiaeth sy'n gallu gwrthsefyll y newid yn ein hinsawdd ac a fydd yn ddiogel ac yn hygyrch yn y blynyddoedd i ddod. Byddwn yn lleihau ein heffaith amgylcheddol drwy archwilio ffyrdd arloesol o reoli carbon ar draws ein hystad a'n gweithrediadau er mwyn gwella cynaliadwyedd teithio ar ein gwasanaethau ymhellach. Byddwn hefyd yn ei gwneud yn haws i bobl deithio'n fwy cynaliadwy drwy wella cyfleoedd i gerdded, olwynio, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Rydym yn cydnabod ein rôl ganolog yng Nghymru o ran mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, annog newid ymddygiad a newid dulliau teithio, lleihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat a chynyddu nifer y bobl sy'n dewis teithio'n fwy cynaliadwy, yn enwedig drwy ddefnyddio dulliau teithio llesol neu drafnidiaeth gyhoeddus.

## Trafnidiaeth Integredig

Mae integreiddio trafnidiaeth wrth wraidd yr hyn a wnawn yn TrC. Rydym yn gweithio i ddod â gwahanol ffyrdd o deithio ynghyd mewn un rhwydwaith trafnidiaeth integredig. Byddwn yn cyflawni hyn drwy barhau i gefnogi'r gwaith o ehangu'r rhwydwaith o gyfnewidfeydd trafnidiaeth aml-ddull yng Nghymru. Rydym yn gweithio i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu hintegreiddio'n weithredol ar bob cyfle drwy gydgysylltu llwybrau ac amserlenni. Rydym yn gweithio tuag at gyflawni nod Llywodraeth Cymru o gael rhwydwaith bysiau wedi'i fasnachfreinio a gefnogir gan integreiddio a gwella gwybodaeth, prisiau a systemau tocynnau. Bydd hyn yn gwella mynediad i'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus ac yn cynyddu ei gyfran dulliau teithio gan arwain at leihad mewn siwrneiau a wneir mewn ceir preifat.

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod teithio llesol yn rhan allweddol o rwydwaith trafnidiaeth integredig yng Nghymru. Rydym yn cydnabod yr amrywiaeth eang o fanteision sy'n gysylltiedig â chynyddu lefelau cerdded, olwynio a beicio. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol i greu a hyrwyddo rhwydweithiau sy'n gallu sicrhau mai siwrneiau teithio llesol yw'r dewis cywir, boed ar gyfer siwrneiau cyfan neu fel rhan o siwrneiau sydd hefyd yn cynnwys trafnidiaeth gyhoeddus.

Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner eraill fel yr awdurdodau lleol, Llywodraeth y DU a'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig newydd i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth integredig Cymru. Dyma sut mae ein rhaglenni Metro ar gyfer y dyfodol a'n cymorth ar gyfer datblygu'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael eu datblygu ac rydym yn disgwyl gweld mwy o gyfleoedd i gydweithio fel hyn.

## Digidol

Er mwyn galluogi hyn, mae gwella ein cynnig digidol yn flaenoriaeth a bydd hyn yn hanfodol er mwyn cyflawni ein nodau o ran tocynnau trafnidiaeth integredig, cynllunio siwrneiau a chysylltedd gwell, a darparu gwasanaethau.

Rydym yn parhau i hyrwyddo diwylliant o arloesi ym mhob rhan o'r sefydliad. Mae sicrhau bod meddwl mewn ffyrdd arloesol yn rhan flaenllaw o waith TrC yn allweddol er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion mewn ffordd ystwyth, effeithlon ac effeithiol.

## Cysylltedd Gwledig

Bydd TrC yn gweithio i sicrhau'r cyfleoedd teithio mwyaf cynaliadwy a hygyrch i gymunedau gwledig. Cymunedau gwledig yw traean o boblogaeth Cymru. Mae cymunedau gwledig wedi'u gwasgaru dros 80% o arwynebedd tir Cymru. Mae angen cynnig amrywiaeth o opsiynau trafnidiaeth i gymunedau gwledig sy'n darparu mynediad hawdd at gyflogaeth, gofal iechyd, addysg bellach ac uwch a chyfleoedd hamdden.

Bydd cynllunio trafnidiaeth gyhoeddus yn allweddol. Mae hyn yn cynnwys atebion trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw, fel fflecsi, sy'n gwella'r opsiynau o ran tocynnau ac integreiddio rhwng dulliau teithio lleol a gwasanaethau mwy canolog fel rhwydwaith TrawsCymru a gwasanaethau rheilffyrdd. Caiff hyn ei ategu gan atebion teithio llesol ac atebion o'r trydydd sector, fel clybiau ceir cerbydau trydan, a fydd hefyd yn chwarae rhan fawr o ran rhoi dewisiadau ymarferol i bobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig yn hytrach na bod yn berchen ar gar, er mwyn eu galluogi i fynd i'r mannau y byddant am fynd iddynt ar yr adegau pan fydd angen iddynt deithio.

## Hygyrchedd

Rydym am sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal at ddulliau teithio cynaliadwy. Yn unol â Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021, byddwn yn ceisio mabwysiadu'r arferion gorau, defnyddio egwyddorion dylunio cynhwysol, a rhoi hyfforddiant i staff er mwyn gweithio tuag at gyflawni ein cyfrifoldebau cyfreithiol a rheoleiddiol a sicrhau bod ein gwasanaethau trafnidiaeth, ein seilwaith a'n gwybodaeth yn hygyrch i bawb.

# Yr economi sylfaenol

Rydym yn frwd dros gefnogi twf economaidd yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, hyrwyddo cyfranogiad cynhwysol a chynyddu cynaliadwyedd a gwerth cymdeithasol yn ein cyfleoedd caffael yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Byddwn yn parhau i gyhoeddi ein holl ddigwyddiadau i gyflenwyr a chyfleoedd caffael agored drwy GwerthwchiGymru a gweithio gyda Busnes Cymru a Diwydiant Cymru i ganfod busnesau bach a chanolig lleol i'w gwahodd i'n digwyddiadau i gyflenwyr a'n digwyddiadau caffael.  Mae hyn yn fodd i ddod o hyd i fusnesau nad ydynt wedi cofrestru â GwerthwchiGymru ac yn eu galluogi i gofrestru eu diddordeb yn y cyfleoedd hyn. Rydym yn parhau i gynnal digwyddiadau i gyflenwyr sy'n benodol i brosiectau ledled Cymru a'r gororau er mwyn paratoi ein cadwyn gyflenwi ar gyfer digwyddiadau caffael sydd i ddod.

Byddwn yn parhau i gynnal digwyddiadau codi ymwybyddiaeth a dysgu rhithwir yn seiliedig ar adborth gan ein cadwyn gyflenwi am yr heriau sy'n eu hwynebu ar hyn o bryd. Lle bo modd, rydym yn ystyried defnyddio contractau neilltuol o dan y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus neu Hysbysiadau Polisi Caffael perthnasol ar gyfer ymgysylltu â sefydliadau'r trydydd sector, busnesau bach a chanolig lleol a mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol. Bydd ein cymorth ar gyfer y Fframwaith Caffael Cenedlaethol ar gyfer Seilwaith Cerbydau Trydan yn cael ei reoli a'i hyrwyddo er mwyn sicrhau cymaint â phosibl o gyfleoedd i'r sefydliadau hynny. Byddwn yn sicrhau bod meini prawf cynaliadwy a chymdeithasol priodol yn cael eu cynnwys ym mhob un o'n digwyddiadau caffael. Byddwn yn rhoi cymorth ac ymwybyddiaeth am ddim i bob sefydliad drwy ein partneriaeth ag Ysgol Cynaliadwyedd y Gadwyn Gyflenwi a Busnes Cymru.

Rydym wedi creu llwybr e-Ddysgu ar gyfer ein cadwyn gyflenwi sy'n cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r Cod Ymarfer, Cyflogaeth Foesegol yn y Gadwyn Gyflenwi, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Caethwasiaeth Fodern, cynaliadwyedd a chynnwys amserol arall. Yn 2023-24, byddwn yn parhau i gefnogi busnesau lleol ac ymgysylltu â nhw drwy wneud y canlynol:

- sefydlu fforwm busnesau bach a chanolig ar gyfer ymgysylltu mewn ffyrdd ystyrlon a phenodol.
- lansio porth Cydweithio ar gyfer y Gadwyn Gyflenwi drwy ein gwefan.
- gweithio gyda rhanddeiliaid i ymgysylltu a chroesawu'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a'r Ddyletswydd Caffael i gael gwared â'r rhwystrau sy'n atal busnesau bach a chanolig rhag cymryd rhan.
- nodi digwyddiadau llwyfan y gadwyn gyflenwi sy'n amserol yn 2023/24.

# Ein cyllid ar gyfer 2023-24

**Daw ein hincwm gan Lywodraeth Cymru drwy grant cylch gwaith ac ar gyfer gweithgareddau a adlewyrchir yn ein llythyr cylch gwaith, refeniw teithwyr, ffynonellau incwm eraill fel ERDF ac awdurdodau lleol.**

Rydym wedi rhannu cyllidebau manwl â Llywodraeth Cymru, a chytunwyd ar feysydd gwariant blaenoriaeth. Mae Tabl 1 isod yn nodi sut byddwn yn cyflawni ein cylch gorchwyl ar gyfer 2023-24, gan adlewyrchu refeniw a chyfalaf mewn meysydd allweddol.

Yn hefyd, byddwn yn cael ffynonellau sylweddol eraill o incwm o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a refeniw rheilffyrdd sy'n cynnwys refeniw teithwyr.

Rydym yn cydnabod y gallai'r ffigurau hyn yng Nghynllun Busnes 2023-24 arwain at nifer o bwysau cyllido yn erbyn llythyr cyllid Llywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau i weithio gyda thîm nawdd Llywodraeth Cymru a swyddogion polisi i fynd i'r afael â'r rhain a'u lliniaru yn ogystal â chynllunio ar gyfer blynyddoedd i ddod. Nid yw'r ffigurau cyllido hyn yn cynnwys unrhyw addasiadau cyllidebol ar gyfer Lesoedd IFRS16 sydd wedi cael eu mabwysiadu gan y Llywodraeth Ganolog - mae effaith hyn yn dal i gael ei hadrodd ar wahân ar draws y llywodraeth a chyllidebau.

Yn unol â'n Herthyglau, mae TrC yn gofyn am awdurdod gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd â mathau penodol o drafodion eiddo, gan gynnwys gwerthu, prynu a phrydlesu.  Mae TrC yn cynnal Adnodd Tracio Trafodion i fonitro cynnydd ar drafodion eiddo ac i gofnodi telerau'r trafodion hyn.  Mae TrC wedi cael awdurdod er mwyn ymgymryd â'r trafodion eiddo sydd wedi'u nodi yn yr Adnodd Tracio Trafodion.

## Tabl 1: Sut rydym yn bwriadu gwario ein cyllid yn 2023-24

| | | £ miliwn |
|---|---|---|
| **Refeniw** | Gwasanaethau rheilffordd i deithwyr a chyfnewidfeydd trafnidiaeth | 343 |
| | Gwariant arall sy’n ymwneud â’r rheilffyrdd gan gynnwys costau perchennog seilwaith, rheoli rhanddeiliaid, ymgysylltu â chwsmeriaid a gwaith cyn cyfalaf ar wella gorsafoedd | 47 |
| | Gwasanaethau cynghori ar fysiau, ffyrdd ac aml-foddol a ariannwyd gan refeniw | 6 |
| | Grantiau i gefnogi gwasanaethau bysiau | 6 |
| | **Cyfanrif** | **402** |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfalaf** | Buddsoddiad ar gyfer gwasanaethau cludo teithwyr ar y rheilffyrdd, gan gynnwys cerbydau, a gwella depos a gorsafoedd | 70 |
| | Dylunio ac gwaith adeiladu i drawsnewid asedau rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd (net o ERDF a chyllid arall £126m) | 194 |
| | Gwaith adnewyddu’r Rheolwr Seilwaith a gwariant arall sy’n gysylltiedig â rheoli asedau rheilffyrdd | 17 |
| | Caffael bysiau a phrosiectau eraill sy’n rhoi cyngor ar fysiau | 40 |
| | Grantiau Teithio Llesol i awdurdodau lleol | 50 |
| | Prosiectau eraill, gan gynnwys Strategaeth Drafnidiaeth, Cyfnewidfa Caerdydd, Metros eraill, ffyrdd a cherbydau trydan | 24 |
| | **Cyfanrif** | **395** |

# Mesur ein perfformiad

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Mae TrC yn gwmni sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwasanaethau allweddol. Mae mesur ein perfformiad yn hanfodol er mwyn i'n cwsmeriaid, ein rhanddeiliaid, ein trethdalwyr a Llywodraeth Cymru allu ein dwyn ni i gyfrif. Mae angen i ni fesur ein perfformiad er mwyn sicrhau gwelliant parhaus wrth ddarparu ein gwasanaethau a sut rydyn ni'n cynnal ein hunain.**

Mae gan TrC gyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol corfforaethol i fesur ein perfformiad fel sefydliad ym meysydd cwsmeriaid, gweithrediadau, diogelwch, cyllid, llywodraethu, pobl a gwasanaethau corfforaethol eraill. Byddwn yn adolygu ein mesurau perfformiad allweddol i adlewyrchu ein cylch gwaith sy'n datblygu.

Bydd ein perfformiad yn erbyn y dangosyddion hyn yn cael ei adrodd i'n Bwrdd ac i Lywodraeth Cymru ar ffurf cerdyn sgorio chwarterol.

Rydym hefyd yn adrodd ar ein perfformiad ar lefel cyfarwyddiaeth i'n Tîm Arwain a'n bwrdd. Gwneir hyn drwy'r cerdyn sgorio corfforaethol a chyfres ehangach o ddangosyddion perfformiad allweddol gweithredol.

Bydd ein dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu hadolygu drwy'r amser a'u datblygu gyda thargedau a chan gyfeirio at lefelau perfformiad cyfredol. Bydd y targedau'n dal i gael eu hadolygu a'u mireinio'n barhaus i sicrhau eu bod yn heriol ond yn gyraeddadwy.

# Cyflawni ein cylch gwaith

## Mae'r adran hon o'n cynllun busnes yn nodi ein prif weithgareddau y byddwn yn eu cyflawni yn 2023-24.

Diben ein holl weithgareddau yw annog newid ymddygiad ym maes trafnidiaeth er mwyn galluogi newid dulliau teithio i ddefnyddio trafnidiaeth fwy cynaliadwy, gan leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat a chynyddu nifer y bobl sy'n dewis defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu ddulliau teithio llesol.

Mae'r adran hon wedi'i strwythuro i ddangos y gweithgareddau y byddwn yn eu cyflawni yn 2023-24 ochr yn ochr â'r amcan tymor hwy, sydd wedi'i nodi yn ein Strategaeth Gorfforaethol y mae'n ei chefnogi. Mae'n dilyn yr un strwythur â'n Strategaeth Gorfforaethol gyda'r amcanion yn cyd-fynd â'n systemau a'n his-systemau ynghyd â'n his-systemau ac is-ddulliau cefnogi. Er ein bod wedi cynllunio ein gweithgareddau i gefnogi ein huchelgeisiau hirdymor, rydym yn cydnabod pwysigrwydd bod yn hyblyg ac yn ystwyth fel sefydliad i ymateb i amgylchiadau annisgwyl.

# Cynllun

# Dadansoddi a meithrin dealltwriaeth

## Datblygu a meithrin ein dealltwriaeth o gwsmeriaid, gan wella ansawdd a chysondeb ein data i'n galluogi i wneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio mwy ar gwsmeriaid ac sy'n cael eu harwain gan ddata

### Adborth a boddhad cwsmeriaid a dylunio gwasanaethau

Byddwn yn datblygu dull TrC o gasglu adborth gan gwsmeriaid ar draws yr holl ddulliau teithio. Byddwn yn sicrhau bod gennym y safleoedd gwrando a'r dulliau cywir er mwyn meithrin dealltwriaeth o gwsmeriaid a sicrhau cysondeb o ran adrodd ac ymateb. Bydd y ddealltwriaeth hon yn hwylusydd allweddol ar gyfer ein gwaith newid ymddygiad.

## Cynnal, diweddaru a hwyluso mynediad at Fodelau Trafnidiaeth Rhanbarthol Cymru ac offer safonol eraill y diwydiant er mwyn iddynt barhau i fod yn adnodd cost-effeithiol a llawn gwybodaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch trafnidiaeth yng Nghymru

### Datblygu ein Modelau Trafnidiaeth Rhanbarthol

Byddwn yn cwblhau'r diweddariad i Fodel Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru hyd at hydref 2022 (ar ôl y pandemig), yn cwblhau'r diweddariad i'r data ar y galw am fysiau ym Model Trafnidiaeth De-orllewin a Chanolbarth Cymru ac yn parhau i gynnal Model Trafnidiaeth Gogledd Cymru. Bydd y tri Model Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gael i'w defnyddio wrth arfarnu trafnidiaeth, gan gynnwys y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

## Cefnogi rheolwyr rhaglenni a phrosiectau ar draws TrC, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cymru i ddylunio a gweithredu methodolegau addas a chymesur ar gyfer asesu'r angen am gynlluniau, rhaglenni a phrosiectau ar drafnidiaeth, a'u heffeithiau tebygol

### Cyhoeddi gwybodaeth gryno am y galw am deithio yng Nghymru ar ôl y pandemig

Byddwn yn caffael setiau data ffonau symudol newydd. Ar ôl dadansoddi'r setiau data, byddwn yn darparu nodyn technegol yn nodi'r penawdau ystadegau ar batrymau'r galw am deithio ar ôl y pandemig. Bydd y nodyn hwn yn arbennig o ddefnyddiol i'r rhai sy'n datblygu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol ac yn cefnogi rhaglenni a phrosiectau. Byddwn yn archwilio dulliau eraill o gasglu data lle mae bylchau ar hyn o bryd.

### Helpu'r sector cyhoeddus a'r sector preifat i asesu a chynllunio safleoedd a chyfleoedd ar gyfer gwefru cerbydau trydan

Byddwn yn defnyddio offer asesu i weithio gyda datblygwyr seilwaith cerbydau trydan i sicrhau bod y rhwydweithiau'n effeithiol, yn effeithlon ac yn gallu tyfu.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

## Byddwn yn datblygu a gweithredu Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru a fydd yn darparu gwybodaeth am ddata cynrychioliadol, ailadroddol o ansawdd uchel ar gyfer gwerthuso effeithiau strategaethau, cynlluniau ac ymyriadau trafnidiaeth

### Rhoi Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru ar waith

Byddwn yn penodi partner cyflawni Arolwg Teithio Cenedlaethol (yn dilyn proses gaffael) er mwyn datblygu'r achos busnes yn y lle cyntaf a chynnal yr arolwg (os caiff ei gymeradwyo). Byddwn yn cyflwyno Achos Busnes Llawn yr Arolwg Teithio Cenedlaethol i Lywodraeth Cymru, gan nodi'r opsiynau a ffefrir a'r opsiynau gorau nesaf cyn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch cyllid.

## Ehangu mynediad at y data rydyn ni'n ei gadw drwy greu a chynnal datrysiad systemau gwybodaeth ddaearyddol i TrC storio ac archwilio amrywiaeth eang o ddata geo-ofodol

### Gwella'r defnydd o Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) yn TrC

Byddwn yn parhau i ddatblygu offer GIS ar gyfer gwella'r defnydd o ddata gofodol i lywio penderfyniadau a hyrwyddo'r defnydd o GIS ym mhob rhan o'r sefydliad, a byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i fod yn gyson â GIS ehangach.

## Gweithio ar draws TrC a Llywodraeth Cymru i nodi dulliau, setiau data a thechnolegau ar gyfer monitro a gwerthuso llwyddiant Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021, y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth a gweithgareddau unigol, yn unol â chanllawiau arferion gorau lle bynnag y bo modd

### Cyhoeddi data monitro Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 ar gyfer blwyddyn 1 (2022-23)

Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad monitro blynyddol cyntaf ar gyfer Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021. Byddwn yn cyhoeddi'r dangosfyrddau data cysylltiedig ar wefan TrC.

## Gweithio gyda partneriaid TrC (e.e. Awdurdodau lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig) ac ym mhob rhan o'n sefydliad er mwyn deall anghenion gwybodaeth a dadansoddol ehangach, gan nodi ffynonellau a dulliau data newydd a fydd yn helpu i gyflymu'r gwaith dadansoddi a gwneud penderfyniadau

### Datblygu dulliau a ffynonellau data newydd

Byddwn yn gweithio ym mhob rhan o TrC i ddod o hyd i ffynonellau data a dulliau dadansoddi a fydd yn helpu i gyflymu a llywio'r broses o wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth yn well.

# Datblygu systemau a rhwydweithiau

## Darparu a datblygu rhwydwaith o leoliadau gwefru cerbydau trydan ledled Cymru, er mwyn i'r holl yrwyr ceir a faniau trydan yng Nghymru allu bod yn hyderus eu bod yn gallu cael mynediad at seilwaith gwefru cerbydau trydan pan fo angen

**Sefydlu Swyddfa Rheoli Rhaglenni i lywodraethu trefniadau darparu, gosod safonau a monitro cynnydd**

Byddwn yn arwain y gwaith o sefydlu'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni (gyda chymorth Llywodraeth Cymru) ac yn datblygu'r rhaglen ymyriadau. Bydd TrC yn gyfrifol am oruchwylio a rheoli risgiau ar lefel rhaglenni.

**Rhoi cymorth, offer a chanllawiau er mwyn galluogi awdurdodau lleol (a'r sector preifat) i gyflawni'r rhwydwaith a ffefrir**

Byddwn yn gweithio'n uniongyrchol gydag awdurdodau lleol i fynd i'r afael â bylchau o ran gallu a chapasiti. Byddwn yn datblygu swyddogaeth gynnal ar gyfer awdurdodau lleol.

**Ymgysylltu â'r sector preifat er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r rhwydwaith a ffefrir yn y ffordd orau posibl ac yn meithrin cydweithio rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat**

Byddwn yn arwain gweithgareddau ymgysylltu â'r sector preifat, gyda chymorth Llywodraeth Cymru.

**Datblygu'r dulliau, y wybodaeth a'r offer i gyflawni'r rhwydwaith a ffefrir**

Byddwn yn arwain y gwaith o ymgysylltu â Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu er mwyn sicrhau bod capasiti'r grid nawr ac yn y dyfodol yn ddigonol ar gyfer y rhwydwaith a ffefrir.

**Manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau a'r dulliau sydd eu hangen i gyflawni'r rhwydwaith a ffafrir yn gyflym ac yn unol ag amcanion polisi**

Byddwn yn darparu pwyntiau gwefru ar y ffordd ar draws safleoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan y sector preifat ac yng Nghymru a gorsafoedd rheilffyrdd trawsffiniol. Byddwn yn helpu awdurdodau lleol i ddarparu pwyntiau gwefru mewn cyrchfannau ac ar y stryd ar draws safleoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan y sector preifat.

## Darparu gwell dyluniad integredig o'r rhwydwaith i greu rhwydwaith trafnidiaeth cwbl integredig ledled Cymru

### Dylunio rhwydwaith aml-ddull

Byddwn yn cydweithio ar draws sawl disgyblaeth gan ddefnyddio dealltwriaeth o ddata i integreiddio llwybrau ac amserlenni bysiau â dulliau teithio eraill er mwyn sicrhau rhwydwaith integredig aml-ddull.

### Cysylltiadau trafnidiaeth rhwng Gogledd a De Cymru (Rheilffyrdd)

Byddwn yn parhau i ymchwilio i fesurau y gellir eu rhoi ar waith er mwyn diogelu'r hen goridor rheilffordd rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth a Bangor ac Afon Wen ymhellach. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig i sicrhau y caiff y llwybrau eu cydnabod yn eu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

## Datblygu diwylliant arloesol a strwythur cwmni sy'n hyrwyddo meddwl arloesol, gan weithio'n effeithiol ac yn effeithlon i wella profiad cwsmeriaid

### Arloesi ar gyfer cwsmeriaid

Byddwn yn datblygu ein cynnig ar gyfer arloesi sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chwsmeriaid. Bydd hyn yn dangos yn gyhoeddus ein bod yn dod o hyd i ffyrdd newydd o wella'r profiad a gynigir i gwsmeriaid, mynd i'r afael â heriau ac arloesi ar gyfer y dyfodol.

## Sefydlu piblinell o raglenni trafnidiaeth gynaliadwy i gefnogi Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021, y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth a'r agenda datgarboneiddio ehangach

### Cyflawni argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru drwy Uned Gyflawni Burns

Byddwn yn cyflwyno Achosion Busnes Terfynol Cam 3 WelTAG i Lywodraeth Cymru ar gyfer prif argymhellion adroddiad Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cam 1 Coridorau Caerdydd i Gasnewydd (llwybrau'r A48 a / neu NCN88)
- Seilwaith Canol Casnewydd (Old Green a Queensway)
- Mynediad Cyffordd Twnnel Hafren.

### Datblygu Rhaglen Metro Canolog Caerdydd

Byddwn yn cwblhau'r adroddiad ar ddewis opsiwn ar gyfer Rhaglen Gwella Canol Caerdydd a'r cyfarwyddyd i ddechrau datblygu un opsiwn. Byddwn yn datblygu dyluniadau canfod y ffordd ar gyfer ardal Canol Caerdydd.

### Datblygu rhaglen Metro Gogledd Cymru

Byddwn yn datblygu'r achos busnes a'r cynlluniau ar draws rhaglen integredig o brosiectau Metro yn Rhanbarth Gogledd Cymru hyd at Gam B+ y Cynllun Gwaith (Achos Busnes Amlinellol). Byddwn yn cefnogi ceisiadau ein partneriaid cyflawni am gyllid (y Gronfa Ffyniant Bro, Trawsnewid Trefi, Cronfa Cysylltedd yr Undeb ac ati). Bydd y blaengynllun yn cael ei ddiweddaru a'i gysoni ag argymhellion a dderbynnir gan Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru.

### Cymorth i Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru

Byddwn yn darparu gwaith datblygu Metro Gogledd Cymru er mwyn galluogi Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru i adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud a darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer dadansoddi.

### Datblygu rhaglen trafnidiaeth wledig ar y cyd â Llywodraeth Cymru

Byddwn yn rhoi eglurder ynghylch dewisiadau amgen ac opsiynau i gefnogi cymunedau gwledig. Bydd hyn yn cynnwys canlyniadau ac ymyriadau â blaenoriaeth sy'n seiliedig ar amcanion polisi Llywodraeth Cymru yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 ar gyfer llwybr gwledig.

### Datblygu Rhaglen Metro De-ddwyrain Cymru

Byddwn yn datblygu'r achos busnes a'r cynlluniau ar draws rhaglen integredig o brosiectau Metro yn Rhanbarth De-ddwyrain Cymru hyd at Gam B y Cynllun Gwaith (Achos Busnes Amlinellol). Byddwn hefyd yn cefnogi ceisiadau ein partneriaid cyflawni am gyllid (y Gronfa Ffyniant Bro, Trawsnewid Trefi a Chronfa Cysylltedd yr Undeb). Byddwn yn gweithio gyda Chyngor Sir Caerdydd i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu a chyflawni Cam 1 Crossrail Caerdydd yn dilyn y cais llwyddiannus i'r Gronfa Ffyniant Bro. Byddwn yn comisiynu gwaith ymchwil i ddatblygu cyfres o argymhellion i gynyddu effaith Metro De Cymru ar newid ymddygiad ym maes trafnidiaeth.

### Datblygu Rhaglen Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru

Byddwn yn datblygu'r achos busnes a'r cynlluniau ar draws rhaglen integredig o brosiectau Metro, gan gynnwys:

- Datblygu opsiynau amlder Gorllewin Cymru i Gaerfyrddin, Aberdaugleddau a Doc Penfro.
- Datblygu cynlluniau busnes i gefnogi prosiectau bysiau hydrogen Bae Abertawe a Dyfrffordd y Ddau Gleddau.
- Datblygu Metro Ardal Bae Abertawe – rhwydwaith o wasanaethau a seilwaith trafnidiaeth newydd, gyda hyd at chwe gorsaf reilffordd newydd ynghyd â llwybrau teithio llesol ac integreiddio llwybrau bysiau.

### Datblygu Rhaglen Prif Linell De Cymru

Gan weithio gyda phartneriaid cyflawni, byddwn yn datblygu cynlluniau ac achosion busnes ar gyfer prosiectau i wella gallu a chapasiti Prif Linell De Cymru hyd at Gam B y Cynllun Gwaith (Achos Busnes Amlinellol). Mae hyn yn cynnwys gweithio i sicrhau cyllid ar gyfer cam nesaf y gwaith o ddatblygu'r gorsafoedd a'r gwasanaethau stopio newydd arfaethedig ar y brif linell rhwng Caerdydd a Bryste a argymhellwyd gan adroddiad Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru a chynigion i ddarparu gwasanaethau uniongyrchol rhwng Gorllewin Cymru a Bryste Temple Meads.

### Canlyniadau'r Adolygiad Ffyrdd

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ymgorffori canlyniadau'r Adolygiad Ffyrdd yn ein rhaglenni trafnidiaeth ar draws y gwahanol ardaloedd.

### Cefnogi'r broses o roi terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar waith ar ffyrdd cyfyngedig

Byddwn yn rhoi cymorth dadansoddi a rheoli rhaglenni i Lywodraeth Cymru ar gyfer rhoi'r rhaglen 20mya ar waith ar ffyrdd cyfyngedig. Byddwn yn darparu adroddiadau a data monitro parhaus.

### Rhaglen drafnidiaeth gynaliadwy

Byddwn yn sefydlu rhaglen gyffredinol o fewn cyllidebau Llywodraeth Cymru sy'n cyd-fynd â phortffolio Atodiad 2 o brosiectau a rhaglenni'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol. Y prif elfennau fydd y rhaglenni Metro.

### Cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol

Byddwn yn gweithio gyda'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac awdurdodau lleol i ddatblygu eu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

## Tyfu a datblygu adnoddau a galluoedd ein tîm i sicrhau bod rhaglenni trafnidiaeth gynaliadwy cyfredol yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus a'r posibilrwydd o ehangu i sectorau trafnidiaeth eraill

### Datblygu gallu ym maes trafnidiaeth

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ystyried y posibilrwydd o drosglwyddo swyddogaethau penodol o Lywodraeth Cymru i TrC. Byddwn yn datblygu gallu cynllunio trafnidiaeth y tîm i ddatblygu a chyflawni'r rhaglenni Metro. Byddwn yn rhoi cymorth i Lywodraeth Cymru a phartneriaid eraill fel awdurdodau lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig drwy leoliadau a chyngor ar amrywiaeth o weithgareddau trafnidiaeth.

### Datblygu adnoddau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu, dylunio a chyflawni dulliau teithio llesol

Byddwn yn sefydlu adnoddau er mwyn helpu i ddatblygu, dylunio a chyflawni prosiectau teithio llesol strategol a chymhleth ar y cyd ag awdurdodau lleol, y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol.

## Canfod a datblygu atebion arloesol sy'n gwella ansawdd profiad cwsmeriaid ac yn cael gwared ar rwystrau rhag defnyddio ein gwasanaethau

### Ymgysylltu â chydweithwyr TrC

Byddwn yn cyflawni strategaeth arloesi TrC gyda'n partneriaid arloesi.

### Seilwaith pwyntiau gwefru cerbydau trydan

Byddwn yn chwilio am atebion newydd ac arloesol yn y gofod hwn sy'n datblygu'n gyflym ar gyfer darparu seilwaith gwefru, gan gynnwys modelau busnes, trefniadau masnachol a thechnolegau newydd.

## Nodi a sicrhau ffynonellau cyllid lluosog er mwyn gallu datblygu'r biblinell o raglenni trafnidiaeth gynaliadwy

### Canfod cyfleoedd cyllido ar gyfer cynlluniau newydd fel Metro Canolog Caerdydd

Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid a buddsoddwyr posibl i ddod o hyd i gyfleoedd cyllido ychwanegol ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth, gan gynnwys cyllid o'r sector preifat. Er enghraifft, mewnfuddsoddiad ar gyfer safleoedd datblygu sy'n canolbwyntio ar drafnidiaeth, ymyriadau ar ddiwrnodau digwyddiadau (y gwelliannau sy'n gysylltiedig â rheoli diwrnodau digwyddiadau), cyllid cwmnïau gweithredu trenau ar gyfer gweithgareddau integreiddio a chyfleoedd masnachol eraill.

## Darparu gwybodaeth a chyngor a gesglir yn fyd-eang ar arferion gorau ym meysydd diogelwch, effeithlonrwydd gweithredol a phrofiad cwsmeriaid

### Arloesi ym maes iechyd, diogelwch a llesiant ar gyfer datblygu seilwaith

Byddwn yn canfod cyfleoedd i arloesi ym maes iechyd, diogelwch a llesiant wrth i ni symud drwy gamau'r broses o ddatblygu seilwaith. Bydd hyn yn adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd gennym a'r cynnydd o ran datblygu arferion da. Rydym yn ymrwymedig i ddod o hyd i ffyrdd newydd a gwell o sicrhau bod iechyd, diogelwch a llesiant wrth wraidd popeth a wnawn – nid dim ond er budd pawb sy'n gweithio yn TrC ac mae TrC yn effeithio arnynt, ond er mwyn gadael gwaddol i brosiectau'r dyfodol adeiladu arno.

Byddwn yn creu adnoddau gan gynnwys papurau, crynodebau ymchwil a dogfennau arferion da er mwyn cynnig cyfleoedd dysgu mewn pedwar maes allweddol:

- System Rheoli Iechyd a Diogelwch
- Iechyd galwedigaethol, hylendid a llesiant
- Gwella iechyd a diogelwch
- Sicrhau iechyd a diogelwch

Gweithio gyda Chyd-fenter Gwasanaethau Arloesi Trafnidiaeth Cymru: Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid Keolis ac Amey yn y gyd-fenter hon er mwyn nodi meysydd lle y gallai profiad rhyngwladol ein partneriaid helpu i wella ein gweithrediadau.

## Gweithio gyda Network Rail i ddatblygu cynlluniau i ddatgarboneiddio rhwydwaith rheilffyrdd Cymru, lleihau faint o garbon sy'n cael ei greu a gweithio tuag at rwydwaith carbon-niwtral

### Cynllun rheoli carbon ac adrodd arno

Byddwn yn rhoi cymorth drwy ddatblygu a rheoli adroddiadau carbon TrC, gan gynnwys fel rhan o ganllawiau Llywodraeth Cymru ar adrodd ar garbon yn y sector cyhoeddus.

### Datgarboneiddio rheilffyrdd

Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Adran Drafnidiaeth, byddwn yn ceisio sicrhau cyllid drwy ddatblygu achosion busnes a chynlluniau ar gyfer prosiectau i ddatgarboneiddio rhwydwaith Rheilffyrdd Cymru i Gam B y Cynllun Gwaith (Achos Busnes Amlinellol) a fydd yn cael ei gyflawni gan TrC neu Network Rail.

## Gweithio gyda phartneriaid fel cymheiriaid y gellir ymddiried ynddynt i fanteisio i'r eithaf ar gynllunio a datblygu strategol llwyddiannus sy'n canolbwyntio ar drafnidiaeth, yn ogystal â monitro rhaglenni trafnidiaeth cynaliadwy

### Cyflawni'r rhaglenni Metro

Byddwn yn dod â rhanddeiliaid a chyllidwyr ynghyd i gydweithio ar drefniadau llywodraethu rhaglenni er mwyn cyflawni ein rhaglenni.

## Integreiddio'r gwaith o gynllunio a datblygu Rhwydwaith Ffyrdd Strategol Cymru fel y'i diffinnir ac y cytunir arno drwy Raglen Trafnidiaeth Integredig y Dyfodol, a chyflawni'r gwaith o gynllunio a datblygu cynlluniau gwella'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol y cytunwyd arnynt

### Cefnogi'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol – cydweithio

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynllunio a datblygu'r cynlluniau gwella Rhwydwaith Ffyrdd Strategol y cytunwyd arnynt yn ein rhaglenni trafnidiaeth gynaliadwy cyffredinol.

### Cefnogi'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol – A465

Byddwn yn parhau i ddarparu tîm Cynrychiolwyr Safle'r Awdurdod i reoli'r gwaith adeiladu i uwchraddio'r A465. Byddwn yn parhau i ddarparu lleoliadau staff a gwasanaethau cynghori i dîm Rhwydwaith Ffyrdd Strategol Llywodraeth Cymru ac ystyried y posibilrwydd o ragor o gyfleoedd i gydweithio.

## Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, gweithredwyr a chyflenwyr i ddarparu fflyd bysiau Cymru heb allyriadau erbyn 2035, gan ategu dyheadau a thargedau datgarboneiddio ehangach Llywodraeth Cymru

### Datblygu hyb hydrogen

Byddwn yn datblygu papur opsiynau er mwyn gallu gwneud penderfyniad ar y potensial i ddatblygu hyb hydrogen yn ardal Abertawe.

# Datblygu rhwydweithiau bysiau a theithio llesol

## Darparu gwasanaeth a rhwydwaith bysiau gwell ac integredig mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol Cymru a Chyd-bwyllgorau Corfforedig yn y pedwar rhanbarth

### Dylunio rhwydwaith bysiau

Gan gydweithio ag awdurdodau lleol, byddwn yn dylunio rhwydwaith bysiau dibynadwy, effeithlon a gwell sydd wedi'i integreiddio'n llawn ac sy'n cynnig sylfaen ar gyfer masnachfreinio ac sy'n diwallu anghenion pobl Cymru.

### Cardiau teithio rhatach

Yn amodol ar gytuno ar gytundeb asiantaeth, byddwn yn datblygu system cardiau teithio rhatach genedlaethol sy'n gweithredu'n llawn i ddisodli'r systemau lleol niferus.

## Cyflawni ymrwymiadau TrC o ran strategaeth Bws Cymru Llywodraeth Cymru, gan gynnwys trosglwyddo i fodel gweithredu 'Guiding Mind'

### Safonau seilwaith bysiau

I gefnogi Bws Cymru, byddwn yn datblygu safonau seilwaith bysiau i ymgynghori arnynt, gan gynnwys paramedrau mynediad, diogelwch a rhwydwaith.

## Datblygu cynllun pum mlynedd ar gyfer fflecsi a chyflawni'r canlyniadau a gynlluniwyd er budd cwsmeriaid a'r gwasanaeth

### Gwasanaethau fflecsi

Byddwn yn cydweithio ag awdurdodau lleol i ganfod ardaloedd lle mai fflecsi yw'r ffordd fwyaf priodol o wella mynediad cymunedol at drafnidiaeth gyhoeddus, yn amodol ar gytuno ar yr achos busnes.

## Datblygu dealltwriaeth o'r posibilrwydd o ehangu ein rôl i sectorau trafnidiaeth eraill i gefnogi amcanion strategol y Rhaglen Lywodraethu ac amcanion strategol yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021

### Cymorth llywodraethu trafnidiaeth

Byddwn yn rhoi cymorth rheoli rhaglenni a rheoli prosiectau i strwythur llywodraethu trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

### Ehangu rôl TrC mewn sectorau eraill

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i nodi a datblygu lle y gall TrC roi cymorth ac ychwanegu gwerth mewn sectorau a meysydd gweithredu newydd.

## Datblygu cynlluniau teithio i orsafoedd a all gyfrannu at ein rhaglen gwella gorsafoedd ac ategu'r gwaith o ddatblygu a darparu rhwydweithiau teithio llesol awdurdodau lleol

### Integreiddio teithio llesol

Byddwn yn datblygu cynlluniau teithio gorsafoedd er mwyn canfod rhwystrau rhag mynediad trafnidiaeth gynaliadwy i orsafoedd a llywio'r gwaith o ddatblygu opsiynau gorsafoedd a rhwydweithiau teithio llesol yn y dyfodol.

## Arwain y gwaith o ddatgarboneiddio gweithrediadau bysiau Cymru er mwyn darparu fflyd cerbydau carbon-niwtral ar gyfer gwasanaethau lleol a chenedlaethol, gan weithio'n agos gydag awdurdodau lleol, gweithredwyr a phartneriaid

### Darparu fflyd bysiau gwasanaeth cyhoeddus di-allyriadau

Byddwn yn sefydlu strwythur er mwyn gallu darparu bysiau di-allyriadau a seilwaith cysylltiedig (o bosibl drwy gaffael, perchnogaeth a phrydlesu) i gyd-fynd â Chynlluniau Masnachfreinio Bysiau Llywodraeth Cymru.

## Gwella integreiddio rhwydweithiau teithio llesol â gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus

### Mannau diogel i barcio beiciau mewn gorsafoedd

Byddwn yn gosod cyfleuster arferion gorau enghreifftiol ar gyfer parcio beiciau'n ddiogel mewn gorsaf(oedd) er mwyn gwella'r ddarpariaeth y tu hwnt i'r safonau sylfaenol presennol y cytunwyd arnynt lle bo hynny'n briodol.

## Ehangu'r cyfleusterau llogi beiciau sydd ar gael ledled Cymru i wella mynediad at deithio llesol fel rhan o rwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy integredig

### Llogi beiciau

Byddwn yn sefydlu dull addas o helpu a galluogi Awdurdodau Lleol a TrC i gaffael cynlluniau llogi beiciau mewn lleoliadau priodol.

## Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, gweithredwyr ac awdurdodau lleol Cymru i gyflawni'r diwygiadau a'r 'mapio at fasnachfraint' sydd ei angen i sicrhau cynaliadwyedd tymor hir gwasanaethau bysiau Cymru

### Cyflwyno'r 'map i fasnachfreinio' ar gyfer gwasanaethau bysiau

Byddwn yn datblygu rhaglen amlinellol o'r gwaith sydd ei angen (gan gynnwys strwythurau llywodraethu a rheoli) i ddarparu trefniadau masnachfreinio bysiau wrth baratoi ar gyfer Bil Bysiau Cymru, a gaiff ei gwneud yn gyfraith yn 2025.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

## Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol Cymru, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a rhanddeiliaid allweddol eraill i wella ansawdd seilwaith teithio llesol Cymru

### Rhaglen y gronfa teithio llesol

Byddwn yn rheoli'r Gronfa Teithio Llesol ar ran Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys rheolaeth ariannol, gan gwblhau adroddiadau chwarterol ar hawliadau a rhoi cymorth a chyngor i awdurdodau lleol.

### Hyfforddiant teithio llesol

Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu rhaglen hyfforddi amlddisgyblaethol ar gyfer ymarferwyr teithio llesol mewn awdurdodau lleol ac eraill yn y sector i gefnogi'r gwaith o gyflawni teithio llesol yn well.

### Siediau beiciau ar y stryd

Ar y cyd ag awdurdodau lleol, byddwn yn cyflwyno prosiect peilot i gyflwyno siediau beiciau er mwyn cynnig lle diogel i storio beiciau ar y stryd.

### Fframweithiau teithio llesol

Byddwn yn datblygu dulliau caffael er mwyn helpu awdurdodau lleol i gael mynediad at y gadwyn gyflenwi a sgiliau arbenigol.

### Cynllunio cyflawni teithio llesol

Byddwn yn helpu Llywodraeth Cymru i ddrafftio Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer teithio llesol. Bydd yn cynnwys y gweithgareddau uchod a hefyd nifer o argymhellion o adolygiad y Grŵp Trawsbleidiol ar Deithio Llesol o'r Ddeddf Teithio Llesol.

### Prosiect Braenaru Teithio Llesol

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid cyflawni allweddol eraill i ddatblygu rhaglen o brosiectau teithio llesol gan ddefnyddio modelau a dulliau darparu amgen i alluogi cynlluniau mwy arloesol, o ansawdd uchel ac effaith uchel.

### Hyb Dylunio Teithio Llesol

Byddwn yn recriwtio yn ôl yr angen i ddechrau ar gam cychwynnol y gwaith o ddatblygu'r Hyb Dylunio i gefnogi'r prosiect Braenaru.

## Gweithio gydag awdurdodau lleol Cymru a Chyd-bwyllgorau Corfforedig lle bo'n briodol, i ddatblygu rhwydweithiau teithio llesol sy'n cysylltu â chyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus fel rhan o rwydwaith teithio llesol cynhwysfawr sy'n cysylltu pobl â'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd eu hangen arnynt

### Cynlluniau rhwydwaith gorsafoedd

Gan weithio gydag awdurdodau lleol, byddwn yn datblygu Cynlluniau Rhwydwaith Gorsafoedd Teithio Llesol, gan greu rhwydwaith o lwybrau teithio llesol â blaenoriaeth sy'n cysylltu â gorsafoedd rheilffyrdd. Byddwn yn datblygu opsiynau dylunio un llwybr ar gyfer llwybrau mawr eu heffaith.

# Partner

# Partneriaethau a chysylltiadau â'r llywodraeth a diwydiant

## Build good working relationships with the Welsh Meithrin perthynas waith dda â Llywodraeth Cymru a datblygu perthynas gref â'n partneriaid allweddol

### Gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol

Byddwn yn cydweithio mewn partneriaeth gymdeithasol â'n cydweithwyr yn yr undebau llafur i gyflawni ein nodau ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn sicrhau bod gennym bobl sydd â'r sgiliau iawn, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn. Byddwn yn ymgysylltu â'n pobl ac yn eu grymuso i gyflawni.

### Adrodd ac adolygu ariannol

Byddwn yn rhoi adroddiadau ariannol cywir a chraff i'n cyrff llywodraethu.

## Nodi a mynd ar drywydd cyfleoedd i wella'n barhaus wrth redeg gwasanaethau trenau sy'n darparu gwerth am arian drwy herio strwythurau a chyfrifoldebau cyllido'r diwydiant a thrwy ddylanwadu ar a meithrin partneriaethau effeithiol â'r diwydiant i hwyluso'r gwaith o ddarparu rhwydwaith rheilffyrdd integredig ar gyfer Cymru a'r Gororau

### Gwreiddio a mireinio Prosesau Trydydd Parti TrC (a gyflwynwyd ym mlwyddyn ariannol 2023)

Byddwn yn gweithio i fireinio'r ffordd rydym yn gwneud busnes gyda'r rhai sy'n awyddus i fuddsoddi yn y rhwydwaith. Byddwn yn darparu canllawiau clir ar ddechrau prosiectau ac un pwynt cyswllt i gefnogi prosiectau drwy gydol eu cylch oes.

### Dylanwadu ar y broses o Ddiwygio'r Rheilffyrdd a gweithredu Great British Railways i Gymru, er mwyn sicrhau y caiff manteision ac amcanion diwygio eu cyflawni

Byddwn yn gweithio gyda Thîm Pontio Great British Railways a Network Rail i ddylunio a datblygu'r strwythurau diwydiant mwyaf priodol i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau Cymru a'r Gororau yn y ffordd orau posibl. Byddwn yn ystyried Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ar gyfer pob penderfyniad sy'n effeithio ar drafnidiaeth yng Nghymru.

### Dylunio strwythur rheoleiddiol a chontractiol Llinellau Craidd y Cymoedd ar ôl 2028

Byddwn yn dylunio ac yn argymell opsiynau contractiol a rheoleiddiol ar gyfer darparu gwasanaethau rheoli seilwaith yn fwy effeithlon a chan sicrhau gwell gwerth am arian ar rwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd yn y dyfodol.

### Gwaith rheoli cysylltiadau a chyngor effeithiol a llwyddiannus i randdeiliaid allweddol fel Llywodraeth Cymru a'r Adran Drafnidiaeth

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, yr Adran Drafnidiaeth a Network Rail a Thîm Pontio Great British Railways i gynnal a gwella ein fforymau llywodraethu. Bydd hyn yn sicrhau bod ein fforymau'n gweithio'n effeithiol ac yn gadarnhaol i wella gwasanaethau trafnidiaeth i gwsmeriaid yng Nghymru.

## Gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol Cymru a buddsoddwyr trydydd parti i sicrhau bod newidiadau i seilwaith trafnidiaeth Cymru yn cael eu cyflawni'n effeithlon

### Cyllid Cyfnod Rheoli 7 Gweithrediadau, Cynnal a Chadw ac Adnewyddu (CP7 OMR) ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd

Byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Trysorlys EF, a'n Rheoleiddiwr, sef y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd, i sicrhau cyllid yn y dyfodol ar gyfer cynnal a chadw Rhwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd yng Nghyfnod Rheoli 7, gan ddechrau ym mis Ebrill 2024.

## Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Network Rail a Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gysoni buddsoddiad a nodi cyfleoedd buddsoddi sy'n ategu'r gwaith o gyflawni amcanion

### Ffrydiau gwaith Diwygio'r Rheilffyrdd – Rhaglen Cyfuno

Byddwn yn cydweithio â Network Rail i ganfod ffrydiau gwaith cydweithredol a'u rhoi ar waith. Nod y rhaglen yw gwella gwasanaethau a phrofiadau teithwyr yng Nghymru. Bydd yn arwain at benderfyniadau sy'n rhoi gwerth am arian amlwg.

### Signalau canolradd Gobowen

Byddwn yn cydweithio â Network Rail i ddatblygu'r achos busnes a sicrhau cyllid ar gyfer uwchraddio signalau yn Gobowen. Bydd hyn yn cefnogi ein gwelliannau arfaethedig i amserlenni.

### Rhaglen gwella gorsaf drenau Caerdydd Canolog

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid yn y diwydiant er mwyn gallu bwrw ymlaen â gwelliannau i orsaf drenau Caerdydd Canolog.

### Cyflawni Cam 1 Glynebwy

Byddwn yn gweithio'n agos gyda Network Rail, ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, i gyflawni'r ymyriadau seilwaith sydd eu hangen i ddarparu dau drên yr awr rhwng Glynebwy, Caerdydd a Chasnewydd yn ystod 2023.

### Gweithio gyda Network Rail i sicrhau cysondeb mewn gwasanaethau trydydd parti

Rydym yn ymrwymedig i ddatblygu ein prosesau i fuddsoddwyr er mwyn ei gwneud hi'n haws i drydydd partïon wneud busnes gyda TrC. Hefyd, lle bynnag y bo modd, byddwn yn gweithio gyda Network Rail i sicrhau cysondeb yn y gwasanaethau a ddarperir er mwyn i ni annog buddsoddiad gan drydydd partïon yn y rheilffordd yng Nghymru.

# Gwasanaethau ymgynghorol trafnidiaeth

## Chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o adeiladu a datblygu'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd

### Cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd (GCRE)

Byddwn yn rhoi cymorth i GCRE Ltd ar gyfer datblygu'r Ganolfan yn unol â Chytundeb Lefel Gwasanaeth y cytunwyd arno. Byddwn yn nodi ffyrdd posibl y gallai TrC ddefnyddio'r Ganolfan.

## Darparu cyngor a chymorth strategol ac arbenigol yn fewnol i ddatblygu trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru

### Rhannu gwybodaeth a throsglwyddo sgiliau

Byddwn yn gweithio gyda'n cynghorwyr arbenigol ein hunain a'r gadwyn gyflenwi i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r system trafnidiaeth gyhoeddus. Byddwn yn gwneud hyn drwy rannu ein cyngor arbenigol a gweithio gyda'r gadwyn gyflenwi i rannu gwybodaeth a sicrhau bod sgiliau'n cael eu trosglwyddo.

## Cynorthwyo'r gwaith o ddarparu fflyd tacsis carbon-niwtral ledled Cymru, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r sector preifat i leihau faint o garbon sy'n cael ei greu gan dacsis yng Nghymru

### Cefnogi fflyd tacsis carbon niwtral

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i asesu'r potensial i Ganolfan Gymorth Gwasanaethau Cerbydau Trydan arfaethedig TrC gefnogi elfennau o ddarparu fflyd tacsis carbon niwtral.

# Y gadwyn gyflenwi a phartneriaethau

## Datblygu cysylltiadau strategol gyda'n cyflenwyr allweddol, gan sicrhau bod amcanion strategol yn cael eu halinio, drwy raglen Rheoli Cyflenwyr Strategol strwythuredig

### Adolygiad o'r system Rheoli Cyflenwyr Strategol

Byddwn yn gwreiddio ein system Rheoli Cyflenwyr Strategol ac yn cwblhau adolygiad i sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio hyd eithaf ei photensial.

## Sicrhau ei bod yn hawdd i gyflenwyr ymgysylltu â TrC drwy gyhoeddi gwybodaeth briodol, defnyddio contractau a phrosesau safonol, a defnyddio offer digidol yn briodol, gan gynnwys er mwyn cynorthwyo cydweithio.

### Y Bil Caffael (2022-23 y DU) a'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (2022 Cymru)

Byddwn yn cynllunio ac yn gweithredu newidiadau i brosesau a systemau er mwyn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth newydd. Byddwn yn cynnal hyfforddiant cysylltiedig ar gyfer staff caffael a staff nad ydynt yn gweithio ym maes caffael.

### Diweddaru'r dull contractio ar gyfer darparu gwasanaethau

Byddwn yn adolygu ein dull contractio ar gyfer darparu gwasanaethau i gwsmeriaid fel awdurdodau lleol a GCRE, gan gynnwys diweddaru'r math safonol o gontract a ddefnyddir ac adolygu ein dull o ymdrin â risg.

## Gwella cadernid a pharhad y cyflenwad drwy ddeall ein cadwyn gyflenwi a sicrhau ein bod ni'n ymgysylltu â phob haen mewn perthynas â materion strategol, gan gynnwys cynaliadwyedd, rheoli risg a chost-effeithiolrwydd

### Caethwasiaeth Fodern

Byddwn yn adolygu dull presennol TrC o osgoi caethwasiaeth fodern. Byddwn yn tynnu sylw at feysydd risg ac arferion gorau, ac yn cyflwyno rheolaethau a chamau rheoli diwygiedig.

### Cefnogi economi Cymru

Byddwn yn sicrhau'r gwerth mwyaf posibl i economi Cymru drwy symleiddio prosesau lle bo hynny'n bosibl a gweithio'n agosach gyda chyflenwyr posibl yng Nghymru, gan gynnwys microfusnesau a busnesau bach a chanolig (BBaChau).

# Cwsmeriaid a diwylliant

# Dylunio profiad cwsmeriaid

## Gwneud rhwydwaith rheilffyrdd Cymru yn fwy hygyrch i bobl â symudedd cyfyngedig

### Safonau ac arferion gorau'r diwydiant

Byddwn yn dylunio ac yn cyflawni prosiectau yn unol â safonau ac arferion gorau'r diwydiant.

## Gwella hygyrchedd ein rhwydwaith a'n gwasanaethau drwy ymgysylltu'n effeithiol ac yn barhaus â'n holl grwpiau o ddefnyddwyr

### Datblygu hygyrchedd a chynhwysiant

Byddwn yn darparu cyngor ac arweiniad ar amrywiaeth o ofynion mynediad, cynhwysiant a chydraddoldeb fel y nodir yn neddfwriaeth y DU a deddfwriaeth Cymru. Byddwn yn parhau i addasu a diweddaru ein Polisi Teithio Hygyrch yn unol â'n cyfrifoldebau cydraddoldeb, cyfleoedd sefydliadol a gofynion y Swyddfa Ffyrdd a Rheilffyrdd.

### Ymchwil strategol ac ymgysylltu â chwsmeriaid

Byddwn yn ymgynghori â'n Panel Defnyddwyr a Chwsmeriaid arbenigol a'n grwpiau Cyfeillion Beirniadol er mwyn rhoi cyngor ac arweiniad mewn perthynas â hygyrchedd a darpariaeth gyfartal, cynigion i gwsmeriaid ar draws dulliau teithio a chefnogi ein hymdrechion i sicrhau newid dulliau teithio.

### Cynorthwyo teithwyr

Byddwn yn darparu cyngor a chymorth i deithwyr. Byddwn yn gwella'r gofynion a'r broses o gynorthwyo teithwyr.

## Datblygu cynllun clir i wella profiad cwsmeriaid ar gyfer ein holl wasanaethau, gan weithio ar draws y sefydliad i wella ansawdd a chysondeb trafnidiaeth yng Nghymru a'r gororau yn barhaus

### Gwella profiad cwsmeriaid

Byddwn yn datblygu cynllun clir i wella profiad cwsmeriaid ar gyfer ein holl wasanaethau, gan ein galluogi i wella ansawdd a chysondeb trafnidiaeth yng Nghymru a'r gororau yn barhaus.

# Ymgysylltu â chwsmeriaid, cymunedau a rhanddeiliaid

## Datblygu tîm Cysylltiadau Llywodraeth a Materion Cyhoeddus sy'n darparu ymgysylltu rhagweithiol, ymatebol, diduedd a dwyieithog er mwyn galluogi craffu, hyrwyddo enw da TrC a chefnogi aelodau etholedig i eirioli dros newid mewn ymddygiad trafnidiaeth i etholwyr

### Cynllun Materion Cyhoeddus ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Byddwn yn parhau i ymgysylltu ag aelodau etholedig, swyddogion a Gweinidogion i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru. Byddwn yn meithrin cydberthnasau dibynadwy, diduedd ac effeithiol er mwyn sicrhau bod gweithgareddau TrC yn dryloyw ac y gellir craffu arnynt.

## Creu brand y gellir ymddiried ynddo ac y gellir ei barchu sy'n gyfystyr â rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus aml-ddull effeithiol, integredig ac arloesol sy'n annog dewisiadau teithio cynaliadwy a newid ymddygiad cadarnhaol yn y tymor byr a'r tymor hir

### Brand TrC

Byddwn yn datblygu strategaeth brand aml-ddull pum mlynedd.

## Creu gwerth brand drwy chwilio am gyfleoedd i ehangu rhagor ar wasanaethau ategol TrC sy'n bodloni disgwyliadau cwsmeriaid ac yn rhagori arnynt

### Rhoi gwasanaeth arlwyo wrth y sedd Blas ar waith yn llawn

Er mwyn sicrhau bod gwasanaeth rheilffyrdd Cymru a'r Gororau yn ddeniadol i gwsmeriaid presennol a darpar gwsmeriaid, byddwn yn chwilio am gyfleoedd i wella'n barhaus o ran darparu gwasanaethau rheilffyrdd sy'n rhoi gwerth am arian, ac yn achub ar y cyfleoedd hynny. Mae hyn yn cynnwys y gwaith sy'n mynd rhagddo i gyflwyno Blas, sef ein cynnig arlwyo wrth y sedd. Bydd hyn yn cynnwys dull strwythuredig o hyfforddi, safonau a mesuriad defnyddio brand ar gyfer pob allfa arlwyo. Byddwn yn datblygu ein perthynas ag addysg bellach, cyflenwyr a gweithgynhyrchwyr, gan ddangos ein cefnogaeth i economi sylfaenol Cymru.

## Cyflawni strategaeth ymgysylltu gyda chwsmeriaid, a'r rhai nad ydynt yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, er mwyn rhoi cipolwg ar anghenion a safbwyntiau cwsmeriaid, gan ein galluogi i ddeall a mynd i'r afael yn well â'r hyn sy'n rhwystro pobl rhag teithio, a llywio'r gwaith o ddylunio teithiau cwsmeriaid er mwyn cynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus

### Arwain y gwaith o ddatblygu a chyflawni strategaeth newid ymddygiad TrC ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24

Byddwn yn datblygu meddylfryd newid ymddygiad yn sefydliadol yn yr amgylcheddau mewnol ac allanol i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau. Bydd hyn yn darparu system drafnidiaeth integredig a diwylliant mewnol sy'n ei chefnogi ac sy'n cynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy.

## Darparu ymgyrchoedd cyfathrebu sy'n hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy a'r ddarpariaeth i gwsmeriaid, yn annog pobl i ddefnyddio'r rhwydwaith a galluogi newid mewn ymddygiad, sydd yn y pen draw yn cynyddu cyfranogiad cwsmeriaid

### Cyflawni strategaeth farchnata TrC

Cyflawni strategaeth farchnata fel yr amlinellir yng nghynllun twf refeniw TrC, gan gyflawni enillion y cytunwyd arnynt ar fuddsoddiad ac amcanion ymgyrchoedd unigol.

## Cyflawni ein strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu fewnol, gan harneisio cydweithio ac adeiladu ar ein dull gweithredu 'un-TrC'. Byddwn yn annog newid ymddygiad cadarnhaol yn ein cydweithwyr er mwyn cyflawni ein strategaeth fusnes

### Cyfathrebu Mewnol

Gan adeiladu ar ein hadolygiad o gyfathrebu mewnol yn 2021, byddwn yn parhau i gyflawni'r amcanion sydd wedi'u nodi yn ei argymhellion. Byddwn yn sicrhau bod cydweithwyr yn ymgysylltu, yn cael gwybodaeth ac yn cael eu galluogi i gyflawni amcanion TrC. Byddwn yn creu naratif clir a chadarnhaol ar gyfer y sefydliad yn fewnol, wedi'i yrru gan flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac i gefnogi TrC fel cyflogwr o ddewis. Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â phartneriaid yn y diwydiant i ddatblygu ein diwylliant sefydliadol.

## Datblygu a gwella ein perthynas â chwsmeriaid a chymunedau yn barhaus, gan ddarparu gwasanaeth adborth o ansawdd uchel i bobl Cymru a'r gororau

### Cwynion gan gwsmeriaid

Byddwn yn adolygu ein prosesau presennol ac yn cynnig dull gweithredu newydd er mwyn ymdrin â chwynion yn well. Byddwn yn sicrhau bod proses ymchwilio gadarn ar waith er mwyn i ni allu ymateb yn effeithiol i'r cwsmer a deall achos sylfaenol eu cwyn. Byddwn yn parhau i ddatblygu a gweithredu gweithdrefn a pholisi cwynion ar gyfer y sefydliad. Byddwn yn gwella amseroedd ymateb i gwynion.

### Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid

Byddwn yn adolygu ein system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfle i greu un llwyfan ar gyfer sawl dull teithio.

### Canolfan Gyswllt yn y Dyfodol

Byddwn yn cyflawni blwyddyn gyntaf Strategaeth a Chynllun Canolfan Gyswllt y Dyfodol pum mlynedd, gan integreiddio sefydliad PTI Cymru yn effeithiol yn TrC a gwella'r gwasanaethau mae'n eu cynnig.

## Annog teithio cynaliadwy ac integredig drwy ymgyrchoedd sy’n canolbwyntio ar y cwsmer, sy’n sicrhau gwerth oes i gwsmeriaid ac sy’n cefnogi’r Gymraeg a’i diwylliant

### Trafnidiaeth gynaliadwy i dwristiaid

Byddwn yn cyflawni Strategaeth Drafnidiaeth ar gyfer Twristiaeth Gynaliadwy sy’n annog ymwelwyr â Chymru i deithio’n gynaliadwy. Bydd hyn yn cynnwys gwella a hyrwyddo gwefan Cledrau Cymru a fydd yn cynnwys amrywiaeth eang o deithiau cerdded addas i deuluoedd o’n gorsafoedd sy’n cael eu datblygu gyda Cerddwyr Cymru ym mhob rhan o’r rhwydwaith.

### Marchnata

Byddwn yn marchnata teithio cynaliadwy yng Nghymru drwy ymgyrchoedd, gan ddefnyddio newid ymddygiad a dealltwriaeth o gwsmeriaid i’w targedu’n effeithiol. Byddwn yn cyflawni hyn drwy ddefnyddio marchnata digidol ac all-lein o’r radd flaenaf, mwy o fanwerthu i sicrhau gwell enillion ar fuddsoddiad marchnata a gwybodaeth o safon uchel gan hybu twf y Gymraeg a diwylliant Cymru.

## Datblygu ein Rhaglenni Rheilffyrdd Cymunedol, gan gysylltu ac ymgysylltu â chymunedau yn eu gorsafoedd lleol a’u rhwydwaith trafnidiaeth, a hyrwyddo Cymru i gynulleidfaoedd newydd ar yr un pryd

### Partneriaethau rheilffyrdd cymunedol

Byddwn yn parhau i gefnogi ein partneriaethau rheilffyrdd cymunedol drwy eu hannog i hyrwyddo newid ymddygiad ym maes trafnidiaeth a chydnabod gwerth cymdeithasol y gwaith sy’n cael ei wneud.

### Cysylltu cymunedau

Rydym yn mynd i’r afael â Strategaeth ‘Cysylltu Cymunedau’ Llywodraeth Cymru drwy gydweithio â sefydliadau’r trydydd sector a sefydliadau eraill. Byddwn yn helpu sefydliadau i leihau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol. Byddwn yn helpu i ddatblygu hyder pobl i deithio gan ddefnyddio’r rheilffordd a dulliau trafnidiaeth gyhoeddus eraill.

### Mabwysiadu gorsafoedd

Byddwn yn datblygu’r broses o fabwysiadu gorsafoedd i greu gwell cynnig i gwsmeriaid ar draws y rhwydwaith. Byddwn yn gweithio gyda thîm cynaliadwyedd TrC i ddatblygu mannau gwyrdd newydd yn ein gorsafoedd neu’n agos atynt.

## Cynhyrchu cynnwys o ansawdd uchel ar gyfer sianeli cyfryngau dan ein perchnogaeth, datblygu cysylltiadau cyfryngau allweddol i ddatblygu enw da TrC ac annog canfyddiadau cadarnhaol o deithio cynaliadwy

### Y cyfryngau

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein perthynas â newyddiadurwyr. Byddwn yn datblygu ein gallu mewnol ein hunain i adrodd stori TrC drwy ein sianeli cyfryngau ein hunain. Byddwn yn cefnogi cyhoeddiadau a digwyddiadau yn y cyfryngau sy'n gysylltiedig â cherrig milltir cyflawni ac yn rheoli naratif newyddion TrC yn adweithiol.

## Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu mentrau ac ymgyrchoedd newid ymddygiad i hyrwyddo teithio llesol a llywio'r gwaith o ddarparu seilwaith ffisegol

### Newid ymddygiad o blaid teithio llesol

Byddwn yn datblygu deunyddiau hyrwyddo, astudiaethau achos a gwybodaeth allweddol, ac yn eu gwella'n barhaus, er mwyn cefnogi'r gwaith o hyrwyddo teithio llesol ledled Cymru.

## Gweithio gyda rhanddeiliaid a chymunedau ar draws dulliau trafnidiaeth gyhoeddus i feithrin cysylltiadau sy'n para a sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed

### Ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau

Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau ledled Cymru a'r gororau. Byddwn yn meithrin cydberthnasau cryf a pharhaol er mwyn sicrhau y caiff pob llais ei glywed ynghylch pynciau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth. Byddwn yn parhau â'n fforymau chwarterol, digwyddiadau galw heibio i'r gymuned ac yn cyflawni ein strategaeth ymgysylltu â'r gymuned ehangach sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd hyn yn golygu bod modd cynnwys y gymuned a phartneriaid yn y gwaith o gyflawni ein hamcanion. Byddwn yn datblygu ein dull o ymgysylltu ag awdurdodau lleol i gefnogi agendâu allweddol fel datblygu cynlluniau'r dyfodol a diwygio gwasanaethau bysiau.

# Cyfleusterau i gwsmeriaid

## Datblygu rhwydwaith cyfnewid sy'n gosod safon TrC ar gyfer cyfleusterau trafnidiaeth

### Cyfnewidfeydd - llais y cwsmer

Byddwn yn ymgysylltu â'n cwsmeriaid i sicrhau bod eu lleisiau wedi'u gwreiddio yn y profiad i gwsmeriaid a gynigir gennym yn ein cyfnewidfeydd trafnidiaeth.

### Agor Cyfnewidfa Bws Caerdydd

Byddwn yn gweithio'n effeithiol i sicrhau y bydd gweithrediadau bws yn dechrau yn y Cyfnewidfa Bws newydd Caerdydd yn 2023 ac agoriad llawn y cyfleusterau cyfnewid ac unedau manwerthu yn 2024.

### Cyfnewidfa'r Porth

Byddwn yn gweithio'n agos gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf er mwyn helpu i sicrhau y bydd Cyfnewidfa newydd y Porth yn agor yn llwyddiannus.

## Ategu'r gwaith o greu a darparu cyfnewidfeydd trafnidiaeth sy'n galluogi cwsmeriaid i deithio yn effeithlon, yn ddiogel ac yn gyfforddus

### Cyfnewidfa Caerdydd

Byddwn yn cyflawni'r gwaith gosod mewnol yng Nghyfnewidfa Caerdydd.

### Datblygu Rhaglen Metro Canolog Caerdydd

Byddwn yn datblygu dyluniadau canfod y ffordd er mwyn gwella cyfnewidfeydd trafnidiaeth ledled ardal Canol Caerdydd.

# Profiad manwerthu

## Creu a darparu atebion tocynnau a phrisiau hygyrch sy'n cynnig y gwerth gorau am y daith ac sy'n galluogi atebion syml o ddrws i ddrws i'n cwsmeriaid

### Integreiddio TrawsCymru â'r rhwydwaith rheilffyrdd ehangach

Byddwn yn rhoi'r cynllun ar waith i integreiddio systemau cynllunio siwrneiau, tocynnau a manwerthu â systemau National Rail. Byddwn yn datblygu partneriaethau lleol mewn rhith orsafoedd ar gyfer gwasanaethau bysiau T2, T3, T6 a T10. Mae hyn yn cynnwys gwaith datblygu i awtomeiddio Ad-daliad am Oedi.

### Cefnogi'r gwaith o ddiwygio prisiau tocynnau

Byddwn yn datblygu ein dull gweithredu ar gyfer strwythurau prisiau ar sail pellter, gwerth a chysondeb i gefnogi'r gwaith o ddarparu llwyfan tocynnau integredig ac aml-ddull.

### Prosiect Talu wrth Deithio Bysiau Gogledd Cymru

Byddwn yn cyflawni'r cynllun peilot aml-weithredwr bysiau sy'n seiliedig ar docyn 1Bws drwy wasanaeth teithio dyddiol wedi'i gapio sy'n defnyddio system tapio ar y dechrau a'r diwedd. Bydd y cynllun peilot hwn yn cynnwys symud i drefn ad-dalu a setlo ar gyfer gweithredwyr a thrydydd cam y gwaith ymchwil i'r farchnad.

### Cynllun peilot Talu Wrth Deithio De-ddwyrain Cymru

Byddwn yn cyflwyno cynllun peilot bysiau ac yna gynllun peilot aml-ddull rhwng Casnewydd a Chaerdydd (yn ymestyn i Bont-y-clun ar gyfer rheilffyrdd). Byddwn yn datblygu'r system ad-dalu a setlo i gefnogi'r cynllun peilot aml-ddull. Byddwn yn cwblhau cytundebau masnachol a chyfreithiol gyda gweithredwyr bysiau i gyflwyno'r cynllun peilot bysiau.

## Darparu dull mwy strategol o ddiogelu refeniw, gan alluogi a hyrwyddo mwy o brynu tocynnau a rhoi newid sylweddol ar waith o ran dilysu tocynnau i reoli twyll, ar sail dadansoddiad gwell o'r risgiau refeniw sy'n dod i'r amlwg

### Strategaeth Diogelu Refeniw

Byddwn yn datblygu Strategaeth Diogelu Refeniw yn seiliedig ar ffyrdd newydd o feddwl a dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar newid ymddygiad.

### Gatiau tocynnau

Byddwn yn adolygu rôl gatiau tocynnau mewn gorsafoedd trenau o ran diogelu refeniw ac yn ystyried yr achos o blaid cyflwyno gatiau mewn lleoliadau newydd yn y dyfodol.

### Twyll digidol

Byddwn yn creu cynllun hirdymor ar gyfer mynd i'r afael â thwyll digidol, yn seiliedig ar ddata a dealltwriaeth.

### Sganio ar y trên

Ar y cyd â'n cydweithwyr, byddwn yn datblygu'r strategaeth i wella cyfraddau sganio goruchwylwyr trenau er mwyn diogelu refeniw yn well ar draws y rhwydwaith.

## Darparu strategaeth tocynnau a chynnyrch aml-ddull ar gyfer rhanbarthau Metro Cymru, gan integreiddio bysiau a threnau a datblygu cyfnewidfeydd sy'n chwalu rhwystrau rhag newid ymddygiad ac yn galluogi siwrneiau gwirioneddol o ddrws i ddrws

### Datblygu tocynnau Crwydro Aml-ddull ar gyfer teithio hamdden

Byddwn yn rhesymoli'r cynhyrchion tocynnau dyddiol, wythnosol ac aml-ddiwrnod sydd ar gael yn rhanbarthol er mwyn sicrhau cynnig cyson i gwsmeriaid sy'n aml-ddull. Mae hyn yn cynnwys datblygu cytundebau masnachol a chyfreithiol gydag awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau, gan gynnwys ad-daliadau. Byddwn yn lansio cynllun peilot yn Ne-orllewin Cymru.

### Cyflwyno tocynnau symudol (cod QR)

Byddwn yn cydweithio â Ticketer a ffrydiau gwaith datblygu'r Grŵp Cyflawni Rheilffyrdd i integreiddio codau QR ar lwyfannau digidol a ffonau symudol.  Bydd hyn yn cynnig llwyfan prisiau a thocynnau integredig ar gyfer manwerthu aml-ddull a dilysu tocynnau.

## Datblygu a hyrwyddo sianeli dosbarthu adwerthu sy'n dangos cost isaf gwerthu ac sy'n cynnig y profiad 'prynu tocynnau' mwyaf cyfleus a didrafferth i gwsmeriaid

### Ehangu'r cynllun Talu wrth Deithio

Byddwn yn ehangu'r cynllun Talu wrth Deithio ledled rhanbarth Metro De-ddwyrain Cymru fesul cam drwy gydol ail hanner 2023/24.

### Manwerthu mor effeithlon â phosibl drwy bob dull

Byddwn yn adolygu ystad manwerthu rheilffyrdd TrC er mwyn lleihau cymhlethdod i'r cwsmer, lleihau costau manwerthu a galluogi twf refeniw mwy costeffeithiol.

### Cynllun peilot Payzone

Byddwn yn parhau â chynllun peilot Payzone ledled Cymru a'r Gororau, er mwyn cyflwyno dull manwerthu tocynnau trên sy'n derbyn arian parod, fel siopau hwylus, i'r gymuned ac ehangu'r opsiynau i brynu tocynnau trên cyn teithio ac mewn rhanbarthau gwledig.

### Ehangu'r cynllun prisiau tocynnau aml-ddull

Byddwn yn manteisio ar lwyddiant cynllun peilot integreiddio TrawsCymru ac yn ehangu i feysydd newydd a chynhyrchion newydd.

### Tocynnau cod bar

Byddwn yn ehangu tocynnau cod bar i feysydd a chynhyrchion newydd er mwyn gwella hwylustod i gwsmeriaid a lleihau cost tocynnau.

## Datblygu ein hatebion o ran tocynnau i fodloni disgwyliadau cwsmeriaid ac, yn y pen draw, sicrhau twf erbyn 2026

### Cynllun peilot tocynnau Talu wrth Deithio

Byddwn yn datblygu ac yn treialu cynllun peilot caeedig cychwynnol yn 2023-24 i brofi'r seilwaith tocynnau a'r atebion swyddfa gefn sy'n seiliedig ar drafodion er mwyn cael y sicrwydd angenrheidiol gan y diwydiant cyn i ni ddechrau'r cynllun peilot agored. Ar ôl cwblhau'r cynllun peilot caeedig yn llwyddiannus, byddwn yn ei agor i bob oedolyn sy'n defnyddio llwybr Casnewydd i Gaerdydd i Bont-y-clun. Bydd y cam nesaf hwn yn cyflwyno swyddogaeth hunanwasanaeth y cwsmer drwy'r ap a'r wefan a chymorth i gysylltu â chwsmeriaid.

## Diwygio ein dull o ymdrin â phrisiau, gwneud y gorau o brisiau a rheoli refeniw i ddiwallu anghenion cwsmeriaid a chynyddu refeniw rheilffyrdd a chyfran dulliau teithio ar draws ein rhwydwaith

### Rheoli refeniw

Byddwn yn gwella ein dull o reoli refeniw ymhellach, gan fanteisio ar y twf refeniw cynyddrannol cryf a welwyd yn 2022-23.

### Tocynnau Dosbarth Cyntaf a Safonol-Premiwm

Byddwn yn gwella'r cynnig i gwsmeriaid drwy lansio strategaethau rheoli refeniw a phrisiau tocynnau newydd i gefnogi'r gwaith o gyflwyno capasiti Dosbarth Cyntaf a Safonol-Premiwm newydd.

### Mentrau prisiau tocynnau hyrwyddo

Byddwn yn lansio cynhyrchion hyrwyddo drwy gydol 2023-24 i gynyddu'r defnydd o'r rheilffyrdd yn ystod cyfnodau o alw isel.

### Twf a moderneiddio busnes-i-fusnes

Byddwn yn moderneiddio ac yn gwella ein cynnig busnes i fusnes ac yn denu cwsmeriaid newydd i'r rheilffyrdd.

### Symleiddio prisiau

Byddwn yn cyfuno ac yn symleiddio cynhyrchion rheilffyrdd er mwyn lleihau cymhlethdod i'r cwsmer.

### Cyfrif teithwyr yn awtomatig

Byddwn yn defnyddio ffynonellau data newydd ar drenau er mwyn deall ymddygiad cwsmeriaid yn well.

# Profiad digidol cwsmeriaid

## Datblygu a lansio darpariaeth cynllunio teithiau aml-ddull effeithiol sy’n cynyddu hyder cwsmeriaid i ddefnyddio dewisiadau eraill yn lle’r car

### Gwneud ap TrC yn aml-ddull er mwyn helpu i gyflawni nodau symudedd fel gwasanaeth

Byddwn yn gwella ap presennol TrC er mwyn ei wneud yn fwy aml-ddull gyda galluoedd cynllunio siwrneiau o ddrws i ddrws. Bydd yr ap yn helpu cwsmeriaid i ddod o hyd i gyrchfannau, ffyrdd o deithio, a chynllunio siwrneiau ar draws pob dull cynaliadwy, gan symud tuag at werthu tocynnau. Bydd hyn yn gwella galluogrwydd defnyddwyr er mwyn hybu newid ymddygiad ym maes trafnidiaeth gan arwain at newid dulliau teithio.

## Datblygu a darparu gwybodaeth deithio gyson a chywir sy’n galluogi ein cwsmeriaid i wneud teithiau integredig di-dor a greddfol a sicrhau mai trafnidiaeth gynaliadwy yw eu dewis yn hytrach na’r car ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau

### Symudedd fel Gwasanaeth a chynllunio teithiau digidol

Byddwn yn datblygu dull sy’n canolbwyntio ar y cwsmer i gefnogi’r gwaith o ddatblygu a chyflawni prosiect cynllunio teithiau digidol.

## Darparu gwybodaeth amser real am ein rhwydwaith a’n perfformiad er mwyn i weithredwyr a chwsmeriaid allu gweld buddiannau o ran gwella diogelwch, lleihau costau a chynyddu ymddiriedaeth erbyn 2026

### Gwybodaeth aml-bwrpas amser real

Byddwn yn ystyried disodli Gwasanaeth Data Bysiau Cymru a Chanolfan Rheoli Gwybodaeth Leol y Rheilffyrdd er mwyn gwella gwybodaeth amser real am drenau a bysiau. Mae’r ddau ateb yn amodol ar benderfyniadau achos busnes a chyllid.

# Datblygu'r sefydliad a phobl

## Cyflawni achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl ar gyfer TrC erbyn 2025 gydag isafswm o statws arian erbyn 2026

### Buddsoddwyr mewn Pobl

Byddwn yn gweithio tuag at ennill achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl erbyn 2025.

## Creu gweithlu ymrwymedig ac wedi ei rymuso, gan sicrhau bod gennym y bobl iawn gyda'r sgiliau iawn yn y lle iawn ar yr adeg iawn

### Strategaeth cynllunio'r gweithlu

Byddwn yn datblygu cynllun gweithlu strategol pum mlynedd ar gyfer TrC.

### Adnoddau gweithredol

Byddwn yn llunio cynlluniau adnoddau gweithredol i sicrhau'r cymysgedd cywir o hyblygrwydd a'r gallu i gyflawni.

### Gweithio gyda'n gilydd

Byddwn yn tyfu gyda'n cydweithwyr yn yr undebau i gyflawni ein nodau ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn sicrhau bod gennym bobl sydd â'r sgiliau iawn, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn. Byddwn yn ymgysylltu â'n pobl ac yn eu grymuso i gyflawni.

### Gwella'r gallu i gynnal a chadw'r fflyd a'r ddarpariaeth cadw

Byddwn yn gwella ein gallu i gynnal a chadw'r fflyd a'r ddarpariaeth cadw drwy gynyddu ein gweithlu i fodloni'r gofynion newydd o ran amserlenni a chyflawni prosiectau allweddol.

## Defnyddio strategaethau recriwtio a chadw i ddenu a chadw unigolion cymwys ac amrywiol i TrC

### Recriwtio

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein dull recriwtio, gan gynnwys mewn perthynas â'n cynllun gwarantu cyfweliad ar gyfer pobl anabl, menywod mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg a phobl sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog.

## Gwella profiad ein cydweithwyr drwy greu diwylliant cynhwysol o ymgysylltu â gweithwyr, llesiant ac amrywiaeth, sy'n arwain at well llesiant ymysg cydweithwyr yn gyffredinol, gwella cynhyrchiant a chadw staff yn well

### Strategaeth Pobl

Byddwn yn datblygu Strategaeth Pobl (2023-2028) sy'n sicrhau bod ein diwylliant yn cyd-fynd â'n dyheadau ar gyfer cwsmeriaid a'n dyheadau aml-ddull.

Adolygiad Annibynnol o Iechyd Meddwl a Llesiant ar draws TrC: Byddwn yn adolygu ac yn gwella ein dull o ymdrin ag iechyd meddwl, lles a llesiant. Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cwblhau'r adolygiad annibynnol a'r asesiad arferion gorau ar draws TrC ar gyfer iechyd meddwl a llesiant.
- Datblygu rhaglen iechyd a llesiant flaenllaw sy'n gyson ym mhob rhan o TrC.
- Datblygu a chychwyn rhaglen o weithgareddau iechyd a llesiant.

### Cynllun gwrth-hiliaeth

Yn ystod 2023/24, byddwn yn datblygu cynllun gwrth-hiliaeth wedi'i alinio ag amcan Llywodraeth Cymru o greu Cymru gwrth-hiliol erbyn 2030.

## Sefydlu partneriaethau a mentrau ar draws y diwydiant i fynd i'r afael â'r bwlch sgiliau tymor hir ac anghenion sector trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol

### Partneriaethau ym mhob rhan o'r diwydiant

Byddwn yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid yn y diwydiant i gyflawni ein hamcanion, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chydraddoldeb, Menywod mewn Trafnidiaeth a recriwtio pobl ifanc a phrentisiaid.

## Buddsoddi yn natblygiad ein cydweithwyr a datblygu ein cynlluniau rheoli olyniaeth i atgyfnerthu ein strategaeth o adeiladu sefydliad galluog

### Adolygiadau Blynyddol y Bwrdd Talent a chynllunio ar gyfer olyniaeth

Byddwn yn cynnal Byrddau Pobl blynyddol gyda'r Tîm Arwain Gweithredol a Bwrdd TrC ac yn cynnal ein hymrwymiad i'n hamcanion cydraddoldeb strategol.

### Datblygu Arweinyddiaeth

Byddwn yn adeiladu ar lansiad llwyddiannus ein rhaglen datblygu arweinyddiaeth.

# Adeiladu a chynnal

# Rheoli seilwaith a chyfleusterau

## Llunio portffolio o offer a thechnegau dadansoddi sy'n ategu'r gwaith o wella gwybodaeth am asedau'n barhaus ac sy'n sail i amcanion eraill

**Strategaeth Dechnegol TrC a ffrydiau gwaith ar gyfer gwybodaeth am asedau**

Byddwn yn diffinio strategaeth dechnegol ar gyfer digideiddio gwybodaeth am asedau.

## Adolygu a datblygu cyfleoedd yn barhaus i ddefnyddio ein hasedau er budd cymunedol a masnachol, gan greu llif o fentrau a gwelliannau newydd

**Datblygu manwerthu**

Byddwn yn ailddatblygu ac yn adnewyddu'r gofod asedau presennol i greu unedau manwerthu a mannau cymunedol.

## Creu a defnyddio fframwaith i optimeiddio stiwardiaeth hirdymor ein hasedau Llinellau Craidd y Cymoedd

**Creu a defnyddio modelau cynaliadwyedd asedau**

Byddwn yn canolbwyntio ar ddefnyddio data perfformiad asedau presennol a hanesyddol, gyda gwybodaeth ychwanegol o offer monitro ar drenau (pan fydd ar gael) i lywio gweithgareddau cynnal a chadw ac adnewyddu. Byddwn yn nodi asedau euraid hanfodol ar gyfer eu cynnal a'u cadw'n well.

## Cyflawni ein cynlluniau ar gyfer datblygu ein rhwydwaith gorsafoedd yn gymdeithasol a masnachol, gan weithio gyda'n partneriaid manwerthu yn yr orsaf i wella'r cynnig i gwsmeriaid a sicrhau mwy o elw i'n rhwydwaith trafnidiaeth

### Rheoli portffolio eiddo

Byddwn yn ailstrwythuro'r contract cymorth rheoli eiddo er mwyn i elfen rheoli portffolio'r cwmpas a ddarperir ar ran Rheilffyrdd TrC gael ei rheoli a'i harwain gan TrC.

### System rheoli eiddo

Byddwn yn datblygu system sy'n eiddo i TrC er mwyn i ni allu rheoli data ar ein gwasanaethau ystadau a'r ffordd y cânt eu darparu.

### Strategaeth ar gyfer caffael tir drwy orfodaeth

Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu methodoleg ar gyfer caffael tir gan ddefnyddio pwerau statudol.

### Cymorth cyfreithiol ar gyfer eiddo

Byddwn yn datblygu contract fframwaith ac achos busnes ar gyfer proses symlach o gaffael cymorth cyfreithiol.

### Cynllun parcio sy'n canolbwyntio ar y Metro

Byddwn yn datblygu cynnig parcio ceir ar gyfer y Metro sy'n diwallu anghenion ein cwsmeriaid, sy'n gwneud y defnydd gorau posibl o'n hystad ac sy'n creu ffrydiau refeniw ar gyfer ailfuddsoddi yn y rhwydwaith.

### Hysbysebu

Byddwn yn datblygu'r ystad hysbysebu i ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid sy'n optimeiddio ac yn digideiddio'r defnydd o'n hystad i greu ffrydiau refeniw ar gyfer ailfuddsoddi yn y rhwydwaith.

### Cysyniad Marchnad y Metro

Byddwn yn  creu a datblygu cynigion manwerthu a masnachol yn ein gorsafoedd sy'n diwallu anghenion ein cwsmeriaid ac yn creu ffrydiau incwm newydd ar gyfer ailfuddsoddi yn ein hystad.

### Rhaglen Datblygu Cymdeithasol a Masnachol

Byddwn yn parhau i greu a datblygu'r Rhaglen Datblygu Cymdeithasol a Masnachol er mwyn gwella ein cynigion manwerthu a masnachol yn ein gorsafoedd sy'n diwallu anghenion ein cwsmeriaid ac yn creu ffrydiau incwm newydd ar gyfer ailfuddsoddi.

### Cyfnewidfa Caerdydd

Byddwn yn  creu a datblygu ein cynnig i deithwyr a chwsmeriaid masnachol, gan greu profiadau a chyfleusterau sy'n ategu taith y cwsmer ac sy'n sicrhau elw masnachol.

### Cynllun Masnacheiddio Ffeibr Llinellau Craidd y Cymoedd

Byddwn yn cefnogi cynllun busnes Masnacheiddio Ffeibr Llinellau Craidd y Cymoedd, yn amodol ar gymeradwyo'r achos busnes. Bydd hyn yn arwain at enillion sylweddol ar fuddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Llinellau Craidd y Cymoedd a'r Metro, gan leihau'r ddibyniaeth ar gymhorthdal Llywodraeth Cymru a chyflawni amcanion Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021.

### Loceri Casglu a Dychwelyd

Byddwn yn datblygu ein hystad Llinellau Craidd y Cymoedd i greu mannau newydd a gwell i'w defnyddio gan ein cymuned a'n busnesau, gan sicrhau gwerth i gymunedau lleol.

## Datblygu strategaeth addasu i'r newid yn yr hinsawdd sy'n gymesur ac yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd

### Llunio Cynllun Cadernid ac Addasu i Newid Hinsawdd

Byddwn yn ymgorffori gofynion ein Cynllun Cadernid ac Addasu i Newid Hinsawdd mewn manylebau cynnal a chadw ac adnewyddu.

## Datblygu, sefydlu, cynnal a rheoli system adeiladau digidol integredig ac amgylchedd data cyffredin sy'n cael ei ddefnyddio ar draws TrC

### Gefell digidol

Byddwn yn sefydlu cynrychiolaeth ddigidol o'r asedau seilwaith. Bydd y rhain yn cael eu sefydlu drwy brosiect trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd ac yna'n cael eu trosglwyddo i berchennog y seilwaith ar ôl eu cwblhau.

## Gyrru'r newid o waith cynnal a chadw adweithiol ac ar sail amser i drefn ragweithiol sy'n canolbwyntio ar leihau methiannau sy'n effeithio ar wasanaethau

### Trefn cynnal a chadw ragweithiol

Byddwn yn cyflawni gweithgareddau cynnal a chadw sy'n cael eu sbarduno gan allbynnau monitro cyflwr o bell, gan gynnwys offer a gludir ar drenau.

# Datblygu seilwaith

## Parhau i leihau costau cyfalaf y prosiectau adeiladu rydyn ni'n eu darparu, gan ddefnyddio dulliau gweithio sy'n parhau i gynyddu gwerth am arian

### Prosiectau seilwaith - gwerth am arian

Byddwn yn cyflawni prosiectau seilwaith gan ddefnyddio'r strategaeth gyflawni fwyaf manteisiol yn economaidd.

## Galluogi trawsnewid rhwydwaith trafnidiaeth Cymru i wella profiad cwsmeriaid, gwella'r ddarpariaeth weithredol a darparu gwasanaethau sy'n cefnogi anghenion newidiol cwsmeriaid

### Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd – system reilffordd integredig

Byddwn yn cyflawni gwaith seilwaith trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd yn unol â'r rhaglen y cytunwyd arni.

### Safonau rhwydwaith bysiau a phrofiad cwsmeriaid

Gan ddefnyddio'r arferion gorau a dealltwriaeth o ddata, byddwn yn gwella profiad cwsmeriaid defnyddwyr bysiau ledled Cymru drwy wneud y canlynol:

- Datblygu safonau gwasanaeth newydd.
- Datblygu gwell dulliau o fonitro a dadansoddi perfformiad.
- Datblygu hierarchaeth profiad cwsmeriaid.

## Sicrhau ein bod ni'n cyflawni ein gweithgareddau datblygu seilwaith yn ddiogel ac yn creu rhwydwaith rheilffyrdd diogel yng Nghymru

### Prosiectau seilwaith diogel

Byddwn yn cyflawni prosiectau'n ddiogel, gan ddefnyddio dull Dylunio i fod yn Ddiogel a chydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a safonau gofynnol.

### Cydymffurfio â'r System Rheoli Diogelwch

Byddwn yn cyflwyno ac yn integreiddio fflydoedd newydd i weithrediad Rheilffyrdd TrC ac yn ategu'r Cynlluniau Gweithredu Prosiectau. Byddwn yn sicrhau bod y broses o gymeradwyo gweithrediadau cyfleusterau depo newydd yn cydymffurfio â gofynion Rheoliad (UE) 402/2013 ar Ddull Diogelwch Cyffredin ar gyfer Gwerthuso ac Asesu Risg, Systemau Rheilffyrdd a Systemau Trafnidiaeth Tywysedig Eraill (ROGS) a'r holl ofynion Gweithrediadau a Diogelwch eraill sydd yn System Rheoli Diogelwch Rheilffyrdd TrC.

## Cynorthwyo newid dulliau teithio drwy greu asedau sy'n ategu ac yn gwella profiad ein cwsmeriaid yn ein seilwaith presennol a newydd

### Yr amgylchedd gorsafoedd a newid dulliau teithio

Gan ddefnyddio ein hymchwil newid ymddygiad, byddwn yn creu amgylchedd gorsafoedd i annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

### Gwella Glynebwy

Byddwn yn parhau i roi cymorth fel Cynghorwyr Technegol y Diwydiant ar gyfer cyflawni'r gwaith gwella yng Nglynebwy.

## Cynorthwyo'r gwaith o drawsnewid y seilwaith trafnidiaeth ledled Cymru a'r gororau

### Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd – gweithgareddau comisiynu

Byddwn yn cyflawni gwaith seilwaith trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd yn unol â'r rhaglen y cytunwyd arni.

### Gweithio gyda'r Ganolfan Technoleg Gweithgynhyrchu

Byddwn yn cydweithio â'r Ganolfan Technoleg Gweithgynhyrchu ac aelodau eraill ar brosiectau arloesi a fydd yn gwella gweithrediadau a seilwaith trafnidiaeth.

# Seilwaith ac Asedau Darparu Gwasanaethau

## Darparu'r holl drenau newydd, a gofynion capasiti depos i sicrhau bod modd gwella amserlenni yn unol â Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021

### Gwelliannau i Ddepo Cynnal a Chadw Ysgafn Barry Sidings

Byddwn yn darparu gwelliannau i gapasiti yn safle cadw Barry Sidings er mwyn galluogi a chefnogi trenau ychwanegol a gallu'r fflyd.

### Profi fflydoedd trenau newydd yn barod i gael eu derbyn a'u defnyddio

Byddwn yn archwilio ac yn derbyn y fflydoedd trenau newydd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r fanyleb dechnegol, yr holl gymalau contractiol, a'r holl gyfreithiau a safonau perthnasol.

### Cwblhau'r gwaith o adeiladu Depo Ffynnon Taf a'i drosglwyddo i gael ei ddefnyddio

Byddwn yn archwilio ac yn derbyn Depo Ffynnon Taf i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r fanyleb ddylunio y cytunwyd arni, yr holl gymalau cytundebol a'r holl gyfreithiau a safonau perthnasol.

### Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd – depos

Byddwn yn cwblhau'r gwaith depo yn unol â'r rhaglen y cytunwyd arni.

# Cyflawni ar gyfer cwsmeriaid

# Darparu gwasanaethau

## Darparu amgylchedd iach, diogel a sicr sy'n galluogi ein holl gwsmeriaid i deithio'n ddiogel, gan leihau ein heffaith ar yr amgylchedd yn barhaus

### Cadw ein cwsmeriaid, a'n gilydd, yn ddiogel

Byddwn yn rhoi canlyniadau adolygiad y Bwrdd Diogelwch a Safonau Rheilffyrdd o drefniadau rheoli Pasio Signalau yn Beryglus ar waith.

### Gwelliant Parhaus o ran iechyd, diogelwch a llesiant ar draws TrC

Ein huchelgais yw gwella ein Haeddfedrwydd Diogelwch yn barhaus, fel y nodir ym Model Rheoli Risg y Swyddfa Ffyrdd a Rheilffyrdd (ORR), a elwir yn RM3.  I gefnogi hyn, rydym yn cynnwys chwe thema iechyd, diogelwch a llesiant:

- arweinyddiaeth effeithiol
- pobl alluog
- disgwyliadau clir
- ymgysylltu â rhanddeiliaid
- sefydliad sy'n dysgu
- dylunio ar gyfer iechyd, diogelwch a llesiant.

Bydd hyn yn arwain at weithwyr iechyd, diogelwch a llesiant proffesiynol cymwys, hyderus a balch, mwy o gynhyrchiant gan weithlu iachach sydd â gwell cymhelliant, gwell gallu i ddefnyddio staff yn genedlaethol ac ar draws model trafnidiaeth aml-ddull TrC a gwell prosesau casglu a dadansoddi gwybodaeth am iechyd, diogelwch a llesiant ar draws TrC, ac yn ei gwneud hi'n haws cydymffurfio â deddfwriaeth, safonau a pholisïau gan roi gwell enw da i TrC am gyfrifoldeb corfforaethol.

### Adolygiad o'r dull diogelwch a phlismona

Byddwn yn adolygu ein rhaglen diogelwch a phlismona gyda Heddlu Trafnidiaeth Prydain a lluoedd arfog Prydain i sicrhau ein bod yn datblygu dull gweithredu integredig. Bydd hyn yn ein galluogi i ddarparu trafnidiaeth ddiogel sy'n cyd-fynd â'n dull gweithredu aml-ddull.

Byddwn yn hyrwyddo amgylchedd 'harbwr diogel' i'r rhai sy'n ystyried hunanladdiad drwy weithio gydag elusennau ac arbenigwyr yn y diwydiant, gan gyfeirio pobl at wasanaethau cymorth a chefnogaeth. Bydd hyn yn rhoi gwell cymorth i'r unigolion yr effeithir arnynt, ein cydweithwyr a'r cymunedau lleol.

Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar ymddygiad gwrthgymdeithasol ynghyd ag atal dwyn a difrod.

## Darparu ein holl gontractau trafnidiaeth er mwyn sicrhau gwerth am arian, gan gynnwys Cytundeb Seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd, cytundebau Llinellau Craidd y Cymoedd gyda Network Rail a grantiau teithio llesol a TrawsCymru

### Sicrhau bod y gwasanaethau rheoli seilwaith a ddarperir gan Seilwaith Amey Cymru yn cydymffurfio â'r rheoliadau

Byddwn yn cydweithio ym mhob rhan o TrC i ddatblygu'r berthynas waith â Seilwaith Amey Cymru ac unrhyw amrywiadau i gontractau sy'n deillio o hynny i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau rheoli seilwaith yn effeithiol.

### Cynllunio ar gyfer ehangu i reoli contractau bysiau

Byddwn yn defnyddio ein sgiliau a'n gwybodaeth o'r sector rheilffyrdd i gefnogi'r gwaith o ddylunio a datblygu'r trefniadau contractiol ar gyfer bysiau.

### Rheoli Grantiau nad ydynt yn gysylltiedig â Rheilffyrdd – ceisio gwella systemau a phrosesau yn barhaus

Byddwn yn adolygu effeithiolrwydd y System Rheoli Grantiau ac adborth gan ddefnyddwyr er mwyn ceisio gwelliant parhaus.

## Darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid, drwy gyflawni ein haddewid o ran amserlenni yn gyson, gwneud y gorau o'n capasiti a darparu'r profiad gorau posibl

### Cyflawni ein haddewid o ran amserlenni

Byddwn yn cyflawni amcanion ein Cynllun Gwella Perfformiad 2023-24. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid.

### Cydgysylltwyr Bysiau yn lle Trenau

Byddwn yn gwreiddio Cydgysylltwyr Bysiau yn lle Trenau yng Nghanolfan Gweithrediadau Rheilffyrdd Cymru er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl a galluogi ein cwsmeriaid i barhau â'u taith yn ddiogel pan fydd digwyddiadau annisgwyl yn atal gwasanaethau trenau rhag rhedeg.

### Cynnig bysiau moethus i gwsmeriaid TrC

Byddwn yn parhau i archwilio ein cynnig bysiau moethus i gwsmeriaid TrC drwy astudiaeth beilot ac yn asesu dyfodol y fenter hon ar y cyd â Llywodraeth Cymru.

### Adnoddau gweithredol

Byddwn yn llunio cynlluniau adnoddau gweithredol i sicrhau'r cymysgedd cywir o hyblygrwydd a'r gallu i gyflawni.

### Cynllun Trenau Rhagfyr 2023

Byddwn yn datblygu cynllun trenau ar gyfer y newid i amserlenni ym mis Rhagfyr 2023 a fydd yn helpu i fodloni'r galw gan barhau i fod yn gadarn, yn gosteffeithiol ac yn gyraeddadwy.

### Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd - gwella'r ganolfan reoli a'r rhwydwaith

Byddwn yn cyflawni'r gwelliannau i rwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd ac yn dechrau defnyddio Canolfan Reoli Integredig Llinellau Craidd y Cymoedd.

### Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd – dull anfon

Byddwn yn cwblhau ac yn profi'r dull anfon ar gyfer gwasanaethau Metro Llinellau Craidd y Cymoedd y dyfodol.

### Argaeledd a dibynadwyedd fflydoedd

Byddwn yn gwella argaeledd a dibynadwyedd ein fflydoedd drwy gynyddu ein gallu cynnal a chadw a'n darpariaeth cadw er mwyn bodloni gofynion yr amserlenni newydd.

## Datblygu a darparu gwasanaeth TrawsCymru gwell a mwy penodol yn unol â chynllun pum mlynedd y cytunwyd arno

### Rhwydwaith TrawsCymru

Gan weithio ar y cyd â Chyd-bwyllgorau Corfforedig ac awdurdodau lleol, byddwn yn canfod ac yn asesu cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg i ddatblygu gwasanaethau presennol TrawsCymru a chynyddu'r defnydd o'r rhwydwaith gan deithwyr.

# Ansawdd gwasanaeth i gwsmeriaid

## Datblygu a gwella ein hymgysylltiad â chwsmeriaid yn barhaus, gan ddarparu gwasanaeth gwybodaeth a chymorth o ansawdd uchel i bobl Cymru a rhanbarthau'r gororau

### Y cynnig i gwsmeriaid o ran bysiau yn lle trenau

Byddwn yn gwella ein dull o ddarparu bysiau yn lle trenau er mwyn sicrhau mwy o wybodaeth amser real, gwell dealltwriaeth o anghenion ein cwsmeriaid a chymorth effeithiol i ganfod y ffordd er mwyn cefnogi siwrnai'r cwsmer.

### Gwybodaeth i Gwsmeriaid

Byddwn yn creu Strategaeth Wybodaeth Aml-ddull er mwyn ceisio gwella'r ffordd y caiff gwybodaeth ei darparu ar bob pwynt lle y gall cwsmer gael gafael arni; cyn, yn ystod ac ar ôl y siwrnai.

### Cynllunio Teithiau Digidol

Byddwn yn datblygu dull sy'n canolbwyntio ar y cwsmer i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni prosiect cynllunio teithiau digidol sy'n chwalu rhwystrau rhag defnyddio trafnidiaeth gynaliadwy.

## Darparu cyfres gyson o fesurau perfformiad gweithredol ac ansawdd gwasanaeth ar draws dulliau a chyfleusterau mae TrC yn berchen arnynt, gan ddarparu gwybodaeth reoli werth chweil

### Ansawdd Gwasanaeth i Gwsmeriaid

Byddwn yn adolygu ein Cyfundrefn Ansawdd Gwasanaeth er mwyn cynnig dull gweithredu aml-ddull amgen sy'n sbarduno gwelliannau go iawn i gwsmeriaid.

# Cynllunio ac adrodd ar y gwasanaeth

## Gan weithio fel un TrC, byddwn yn darparu rheolaeth perfformiad a masnachol gadarn o Reilffyrdd Trafnidiaeth Cymru, sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau trenau gwerth am arian i'n rhanddeiliaid a'n cwsmeriaid

**Gwasanaeth rheilffyrdd gwell a chadarn drwy ddatblygu a diffinio manyleb y gwasanaeth**

Byddwn yn adolygu'r gwelliannau arfaethedig i amserlenni yn y dyfodol yn erbyn y dadansoddiad diweddaraf o'r galw a'r adnoddau a'r fflyd a'r seilwaith gwell sydd ar gael i ni. Bydd hyn yn ein galluogi i ddylunio a gweithredu'r defnydd gorau posibl o'n hadnoddau rheilffyrdd, gan sicrhau gwell gwasanaethau i gwsmeriaid.

# Gwerth am arian

# Llywodraethu a rheolaeth ariannol

## Meithrin cysylltiadau sy'n gallu cyflawni diben TrC, gan ddarparu cyngor dibynadwy, dadansoddiadau craff a gwybodaeth reoli effeithiol

### Darparu cyngor ac arweiniad dibynadwy

Byddwn yn darparu data ac adroddiadau ariannol cywir a chraff i'r busnes yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau.

## Sicrhau bod prosesau rheoli cyllideb a gwneud penderfyniadau cadarn ar waith gyda dull seiliedig ar dystiolaeth o ymdrin â risg ariannol

### Cyllideb a rhagweld

Byddwn yn pennu cyllideb flynyddol ar sail y cyllid sydd ar gael a dadansoddiad o'r gwaelod i fyny. Byddwn yn ail-ragweld yn rheolaidd yn erbyn y gyllideb honno.  Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn datblygu cyllideb 'blynyddoedd y dyfodol' i ddarparu gofynion cyllido tymor canolig dangosol.

### Arbedion effeithlonrwydd a gwerth am arian

Byddwn yn cynnal fframwaith er mwyn helpu i ganfod arbedion effeithlonrwydd yn barhaus, a hynny yn ystod cyfnod paratoi'r gyllideb ac yn ystod y gwaith ail-ragweld. Byddwn yn monitro perfformiad yn erbyn yr arbedion a ragwelir.

## Sicrhau bod TrC yn cael ei lywodraethu'n dda gyda phrosesau cadarn a hyblyg, gan adeiladu ar hunanarchwiliadau gyda thargedau gwella clir

### Llunio Adroddiadau Blynyddol TrC

Byddwn yn llunio Adroddiad Blynyddol gan gynnwys datganiadau ariannol cyfunol ac adroddiadau blynyddol ategol, gan gynnwys datganiadau ariannol.

### Erthyglau Cymdeithasu a'r Ddogfen Fframwaith

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar ddogfen fframwaith ddiwygiedig a mabwysiadu Erthyglau Cymdeithasu wedi'u diweddaru.

### Adroddiadau ar yr Amgylchedd Rheolaethau Mewnol a Newid Hinsawdd

Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol yn TrC i greu'r rhaglen weithgarwch i wella ein hamgylchedd rheolaethau mewnol o dan y newidiadau i'r rheoliadau sydd ar y gweill. Mae hyn yn cyd-fynd â'n Model Gweithredu Targed newydd. Byddwn yn darparu dadansoddiad cwmpasu blynyddol o'n datganiadau ariannol, wedi'i ddiffinio gan drothwyon perthnasedd, a fydd yn darparu cwmpas y prosesau a ddewisir ar gyfer ein profion blynyddol. Bydd hyn yn dangos a yw ein rheolaethau mewnol yn gweithredu'n effeithiol. Pan fydd bylchau mewn rheolaethau wedi cael eu nodi, bydd cynllun adfer yn cael ei roi ar waith ac yn cael ei ailbrofi ar ôl adfer. Bydd hyn yn rhan o ddatganiad ardystio blynyddol y swyddog cyfrifyddu gyda'n datganiadau ariannol blynyddol.

### Atal twyll

Byddwn yn llunio strategaeth a chynllun gweithredu gwrth-dwyll ac yn cyflwyno cynllun cyfathrebu a hyfforddi.

### Yr amgylchedd rheolaeth ariannol

Byddwn yn sicrhau amgylchedd rheolaeth ariannol cadarn, gan adrodd yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt, er mwyn sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cael ei ddiogelu'n briodol.

### Moeseg

Byddwn yn cyhoeddi cod moeseg TrC.

### Adroddiad Blynyddol ar Reolaeth Archwilio Mewnol 2022/23

Byddwn yn paratoi adroddiad blynyddol ar Reolaeth Archwilio Mewnol i'w gymeradwyo gan Bwyllgor Archwilio a Risg TrC ac yn ei gyflwyno i'n Tîm Arwain Gweithredol a Llywodraeth Cymru.

### Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol

Byddwn yn llunio cynllun archwilio blynyddol ar draws holl feysydd TrC i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risg er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol, gwerth am arian a gwelliant parhaus. Byddwn yn cyflawni'r Cynllun Archwilio Mewnol blynyddol, a byddwn yn paratoi'r adroddiad blynyddol ar Reolaeth Archwilio Mewnol.

### Creu rhaglen yswiriant sy'n rhoi'r gwerth gorau ar gyfer strwythur y grŵp er mwyn helpu i leihau cyfanswm cost risg

Byddwn yn adolygu ac yn pennu paramedrau didynnu a hunanyswirio priodol, yn adolygu'r strategaeth hawliadau a'r rhaglen yswiriant ac yn lleihau hawliadau a gwariant premiwm lle bo modd.

# Cynllunio corfforaethol a busnes

## Cyflawni cynllun busnes TrC a chefnogi a herio'r sefydliad er mwyn creu sylfaen gost effeithlon

### Cynllun busnes

Byddwn yn cysylltu â Llywodraeth Cymru i gytuno ar ein prif weithgareddau a sicrhau ei bod yn cytuno i gyhoeddi ein Cynllun Busnes ar gyfer 2024-25.

### Dangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol

Byddwn yn adolygu'r gyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol corfforaethol yn barhaus ac yn awgrymu ffyrdd o'i gwella gyda Llywodraeth Cymru sy'n cyd-fynd â'n Strategaeth Gorfforaethol a'n Cynllun Busnes. Byddwn yn cyhoeddi diweddariadau chwarterol ar ein perfformiad yn erbyn ein dangosyddion perfformiad allweddol.

# Gwasanaethau TG a digidol

## Rheoli ystad ddigidol a TG TrC ar draws gweithredwyr trafnidiaeth, gan sicrhau ei bod yn ddiogel, yn gadarn ac yn ddibynadwy, gan amharu cyn lleied â phosibl ar wasanaethau

### Ardystiad diogelwch TG

Byddwn yn ceisio sicrhau ailachrediad diogelwch TG Cyberessentials Plus, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed yn 2022/23 i wella ein sgôr cydymffurfio.

## Trawsnewid seilwaith digidol TrC i gynnig darpariaeth o ansawdd uchel sy'n cael ei gwerthfawrogi gan ein cwsmeriaid a thrwy gydol ein gweithrediadau

### Gweithio gyda Labordai TrC i dreialu datblygiadau digidol arloesol

Byddwn yn helpu Labordai TrC i dreialu datblygiadau digidol arloesol y gellir eu cynnwys mewn atebion digidol a TG a chynhyrchion digidol yn y dyfodol.

# Rheoli contractau a masnach

## Darparu dull masnachol strategol a chost-effeithiol o ymdrin â cherbydau rheilffyrdd a'r hyn sydd i'w gyflawni a rheoli ein hasedau'n effeithiol

### Modelu ariannol

Byddwn yn ehangu ein galluoedd modelu ariannol i gyd-fynd â chynllun busnes TrC i ystyried dulliau teithio eraill a gweithgareddau a gwasanaethau eraill TrC.

### Cynllun tymor canolig ar gyfer cerbydau rheilffyrdd

Byddwn yn monitro'r gwariant sydd wedi'i ymrwymo i drawsnewid cerbydau rheilffyrdd ar draws seilwaith a threnau newydd er mwyn rhoi gwybodaeth reoli o bryd i'w gilydd i'r rhanddeiliaid mewnol allweddol.

## Datblygu achosion busnes ar gyfer buddsoddiad parhaus pellach ac yn y dyfodol mewn datgarboneiddio drwy ehangu'r fflyd, technolegau a ffurfweddu, y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes wedi ymrwymo iddo o fewn yr archebion presennol

### Strategaeth Datgarboneiddio Cerbydau Rheilffyrdd

Byddwn yn datblygu opsiynau i ddatgarboneiddio'r cerbydau rheilffyrdd er mwyn cefnogi'r strategaeth tymor hwy.

## Darparu rheolaeth ariannol ar gyfer prosiectau a rhaglenni seilwaith a gwario arian yr Undeb Ewropeaidd yn effeithiol

### Gwneud y mwyaf o gyfraniad Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop at gyflawni trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd

Byddwn yn cyflwyno hawliadau ar amser yn unol ag amserlenni Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Byddwn yn sicrhau bod cyfraniad Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn cael ei gyflawni i'r eithaf. Byddwn yn cwblhau'r gwaith o gau'r prosiect er mwyn rhyddhau cyllid dargadw.

### Rheoli costau prosiectau seilwaith

Byddwn yn cwblhau'r gwaith o gau'r prosiect er mwyn rhyddhau cyllid dargadw.

# Gwasanaethau galluogi

# Diogelwch, cynaliadwyedd a rheoli risg

## Parhau i wella iechyd, diogelwch, llesiant a diogelwch ein cydweithwyr, ein cwsmeriaid a'n partneriaid ar draws rhwydwaith trafnidiaeth aml-ddull

### Parhad busnes drwy reoli risg a pharodrwydd am argyfwng

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein dull gweithredu ar gyfer parhad busnes drwy gysoni ein risgiau corfforaethol arwyddocaol yn well ag asesiadau o'r effaith ar fusnes a chynlluniau parhad. Byddwn yn cynnal ein trefniadau argyfwng, ein cynlluniau, ein hyfforddiant a'n profion er mwyn lleihau'r risg a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd.

## Ymgorffori cynaliadwyedd yn ein gwaith datblygu seilwaith presennol a newydd, gan weithio gyda chyflenwyr i greu cyfleoedd cyflogaeth lleol, cynyddu gwerth cymdeithasol a lleihau ein heffaith amgylcheddol

### Cynnal y Rhaglen Llwybrau a chefnogi Cyfamod y Lluoedd Arfog

Byddwn yn cyflogi unigolion drwy'r Rhaglen Llwybrau a Chyfamod y Lluoedd Arfog.

### Rheoli ac adolygu bioamrywiaeth

Byddwn yn rheoli cydymffurfiaeth â rheolau ecoleg a bioamrywiaeth yng ngweithrediadau TrC drwy roi cyngor a hyfforddiant technegol a strategol yn unol â deddfwriaeth. Byddwn yn diogelu ac yn gwella bioamrywiaeth yn unol â'n Dyletswydd Adran 6 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru 2016). Nod hyn yw cyflawni ein hamcanion amgylcheddol a'n hamcanion cynaliadwyedd a sicrhau dyfodol cadarn.

## Sicrhau bod TrC yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn gweithio i sicrhau bod ein pobl, ein prosiectau a'n gweithgareddau yn mynd y tu hwnt i'r uchelgais hwn drwy arwain drwy ein hymddygiad, creu effeithiau cadarnhaol a chynnig cymorth a chyngor drwy ein cadwyn gyflenwi, ein cymunedau a'n partneriaid

### Cadernid o ran newid hinsawdd

Byddwn yn cyhoeddi ein Cynllun Cadernid ac Addasu i Newid Hinsawdd.

### Cydymffurfiaeth â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Byddwn yn cynnal asesiad o rwymedigaethau TrC fel corff a enwir o dan y Ddeddf. Byddwn yn gwreiddio llinellau llywodraethu newydd drwy'r Is-bwyllgor Iechyd, Diogelwch, Cynaliadwyedd a Llesiant ac yn olrhain ac yn monitro cydymffurfiaeth. Byddwn yn cysoni ein Strategaeth Gorfforaethol â'n gofynion fel corff newydd o dan y Ddeddf. Byddwn yn parhau i gyhoeddi ein Diweddariad Datblygu Cynaliadwy i ddangos sut rydym yn cyflawni'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio sydd wedi'u nodi yn y Ddeddf.

### Diogelu a gwella bioamrywiaeth

Byddwn yn gwneud cais am gyllid i gyflawni prosiectau sydd o fudd i'r amgylchedd ac sy'n cyflawni ymrwymiadau a wnaed yn ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth. Byddwn yn ymchwilio i gyllid ar gyfer prosiect Llwybrau Gwyrdd Rhan 2. Byddwn yn diogelu ac yn gwella bioamrywiaeth yn unol â'n Dyletswydd Adran 6 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru 2016). Nod hyn yw cyflawni ein hamcanion amgylcheddol a'n hamcanion cynaliadwyedd a sicrhau dyfodol cadarn.

### Datblygu treftadaeth a chyfleoedd

Byddwn yn lansio ein Panel Cynghori ar Dreftadaeth a'n Cynllun Gweithredu Treftadaeth newydd ac yn gwneud cais am gyllid i gyflawni prosiectau sy'n sicrhau budd i'r amgylchedd ac sy'n cyflawni ymrwymiadau a wnaed yn ein Cynllun Gweithredu Treftadaeth. Byddwn yn cyflwyno cais ar gyfer prosiect Trainscapes i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ac ar gyfer y prosiect Celf mewn Gorsafoedd i Gyngor y Celfyddydau.

### Rhwymedigaethau cydymffurfiaeth amgylcheddol

Byddwn yn ennill achrediad y Ddraig Werdd ar Lefel 5 ar gyfer ein holl asedau. Byddwn yn nodi meysydd allweddol yn ein rhwydwaith er mwyn leihau ein heffaith ar ansawdd aer. Byddwn yn sicrhau nad ydym yn defnyddio plastig untro yn unol â deddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru. Nod hyn i gyd fydd cyflawni ein hamcanion amgylcheddol a'n hamcanion cynaliadwyedd a sicrhau dyfodol cadarn.

### Strategaeth Ynni TrC

Byddwn yn cyhoeddi ein Strategaeth Ynni. Byddwn yn creu arddangoswr gorsaf gynaliadwy yng Nghymru. Byddwn yn lleoli'r lloches solar gyntaf oddi ar y grid yng Nghymru.

## Sicrhau ein bod yn datblygu ein dull amddiffyn tair llinell o ran risg, fel bod y risgiau sy'n gysylltiedig â'n prosiectau a'n gweithgareddau yn cael eu rheoli, eu herio, eu profi a'u trin yn briodol a rhoi'r canlyniad busnes gorau i'n cwsmeriaid

### Gwreiddio a chyfleu datganiadau parodrwydd i dderbyn risg

Byddwn yn gwreiddio datganiadau parodrwydd i dderbyn risg mewn trefniadau rheoli risg a llywodraethu ym mhob rhan o TrC.

# Rheoli newid

## Cytuno ar ddull gweithredu wedi ei alinio'n strategol ar gyfer rheoli newid sefydliadol, a'i roi ar waith, sy'n sicrhau cysondeb o ran dull a methodoleg, ac sy'n ymatebol ac yn hyblyg i anghenion busnes

### Dyluniad y sefydliad

Byddwn yn adolygu ein strwythur sefydliadol er mwyn sicrhau bod ein model gweithredu newydd yn cael ei gyflawni yn y ffordd orau posibl.